

Diweddariad am Ariannu

Trwy'r Diweddariad hwn mae cysylltiadau i wefannau allanol. Er ein bod yn ceisio i sicrhau bod y cysylltiadau yn gywir, yn gyfoes ac yn berthnasol, ni all Cyfoeth Naturiol Cymru gymryd cyfrifoldeb am dudalennau sy'n cael eu cynnal gan ddarparwyr allanol.

Y Newyddion Cyllid Diweddaraf...

Ymgynghoriad ynghylch Papur Gwyn yr Amgylchedd

Mae ar Gymru angen deddfwriaeth newydd i sicrhau rheoli ei hadnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy, cydlynedig, yn ôl y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd, Alun Davies. Roedd y Gweinidog yn siarad am ei Bapur Gwyn Bil yr amgylchedd, sydd newydd ei gyhoeddi, a dywedodd y byddai'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn allweddol ar gyfer sicrhau ffyniant cymunedau Cymru yn y tymor hir, a sicrhau twf economaidd. Lluniwyd y cynlluniau er mwyn cael gwared ar gymhlethdod diangen yn y ddeddfwriaeth amgylcheddol bresennol, hwyluso prosesau a chynlluniau, ac esgor ar agwedd mwy cydlynedig at reoli adnoddau naturiol. Bydd yr ymgynghori ynghylch Papur Gwyn Bil yr Amgylchedd yn parhau hyd y 15fed o Ionawr 2014. Am ragor o wybodaeth, a manylion sut mae ymateb, ewch at : <http://digbig.com/5bjdnp>

Arolwg newydd yn dangos yr ystyrir Coetiroedd Cymru'n adnodd cymunedol

Mae agos i 65% o bobl Cymru'n ymweld â choetiroedd Cymru'n rheoliad, a 94% yn credu eu bod o fudd pendant i'r gymuned. Hyn yn ôl Arolwg Barn y Cyhoedd am Goedwigaeth eleni, a gynhaliwyd pob dwy flynedd er 2003 er mwyn cadw golwg ar farn pobl ynghylch coetiroedd Cymru, a chynorthwyo rheolwyr wrth benderfynu ple gellir gwella. Am ragor o wybodaeth, ewch at: <http://digbig.com/5bjdnc>

Yr Asda Foundation yn cefnogi Canolfan Gymunedol Pen-y-bont ar Ogwr

Yn ddiweddar, cafodd Canolfan Gymunedol Westward ym Mhen-y-bont ar Ogwr £12,000 o nawdd oddi wrth Sefydliad Asda, er mwyn dechrau man garddio a chlwb garddio, a chynnwys pobl ifainc mewn 'sesiynau tyfu eich bwyd eich hun'.

Lansio Cynllun Cymorth Band Eang Newydd yng Nghymru

Bydd y cynllun Allwedd Band Eang Cymru newydd yn cynnig nawdd at sefydlu cysylltiadau band eang cyflymach ar gyfer busnesau, preswylwyr a chymunedau ledled Cymru. Wedi'i lansio ar y 1^{af} o Hydref 2013, anelir y cynllun yn benodol at adeiladau sydd â band eang araf ar hyn o bryd.

Wedi'u cysylltu â natur?

Am y tro cyntaf erioed, cynhaliwyd arolwg astudio cysylltiad plant y Deyrnas Unedig â natur, ac y mae'n amlwg fod cysylltiad plant Cymru â natur yn wannach o lawer na phlant gweddill y Deyrnas Unedig. Canfu'r prosiect tair blynedd, a gynhaliwyd gan y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, mai dim ond 13% o blant Cymru (1 ym mhob 8) sydd â

chysylltiad 'realistig a chyraeddadwy' â Natur, o gymharu ag 21% ledled gweddill y Deyrnas. Am ragor o wybodaeth, ewch at: <http://digbig.com/5bjdmt> Ffynhonnell: RSPB

Cyfleoedd newydd ar gyfer celfyddydau awyr agored yng Nghymru

Oes gennych chi ddi-ddordeb mewn creu celfyddydau awyr agored blaengar, da eu hansawdd yng Nghymru? Ymunwch ag Articulture ar eu Hymdaith Awyr Agored Fawr, sef cyfres o gyfleoedd newydd a chyffrous ledled Cymru a thu hwnt yn y flwyddyn nesaf. Mae ar agor i holl ymarferyddion, noddwyr, swyddogion datblygu, gwyliau a mannau arddangos celfyddydol Cymru. Gan ddechrau'r hydref hwn, 2013, mae'r Ymdaith yn cynnwys cymorthdaliadau, achlysuron rhwydweithio, cyfarfodydd cwta, a chyfle i greu comisiynau graddfa-fechan, newydd â digwyddiadau celfyddydol o bwys. Am ragor o wybodaeth, ewch at: <http://digbig.com.5bjdpb>

Canllaw i'r Diweddariad hwn

Cynlluniwyd y Diweddariad hwn fel ffynhonnell gyfeiriol, hawdd ei defnyddio, sy'n rhoi gwybodaeth gryno am ffynonellau ariannol sy'n cefnogi prosiectau i gynnal harddwch naturiol, bywyd gwyllt a'r cyfle i bobl fwynhau eu hunain yn yr awyr agored yng Nghymru. Ceir allwedd isod i'r gwahanol flaenoriaethau ar gyfer cyllid yr ydym yn cadw llygad amdanynt yn ein hymchwil. Gobeithio y bydd hwn yn ganllaw sydyn, hawdd ei ddefnyddio i chi, ac y bydd yn dangos beth allai fod ar gael i'ch prosiect penodol chi.

■ CG – Cefn Gwlad	■ ME – Mynediad i'r Amgylchedd
■ CW – Cadwraeth	■ TW – Tirwedd
■ AA – Yr Amgylchedd Arfordirol	■ AE – Yr Amgylchedd Ehangach
■ DC – Datblygu Cynaliadwy	■ TDd – Treftadaeth Ddaearegol

Byddem yn falch o gael adborth ac awgrymiadau ar gyfer rhifynnau o'r diweddariad hwn a gyhoeddir yn y dyfodol. Os hoffech wneud sylwadau anfonwch ebost i:

ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Beth sy'n newydd?

Ailystyried Parciau ■ AE

Mae'r rhaglen Ailystyried Parciau, a gynhelir ar y cyd gan Nesta, Cronfa Etifeddiaeth y Loteri a Chronfa'r Loteri Fawr, wedi gwahodd ceisiadau'n ddiweddar. Gwahoddir elusennau a chyrrff gwirfoddol i ymgeisio am ran o £1mn o arian ar gyfer cefnogi syniadau arloesol ar gyfer gwneud parciau cyhoeddus yn gynaliadwy, o safbwynt ariannol. Cynllunnir y rhaglen i weithio'n ddau gam, a'r cyntaf fydd cyfres o weithdai ac achlysuron hyfforddi ple rhoddir manylion ynghylch cyflwyno mynegiant o ddi-ddordeb. Cynhelir

gweithdy Cymru **ynghaerdydd ar yr 28^{ain} o Ionawr**. Yna gwahoddir cyrff ar y rhestr fer i weithdy 'arloesedd ymarferol' ym Mawrth 2014. Am ragor o wybodaeth, ewch at: <http://digbig.com/5bjdpns>

Cynllun Grant Mannau Addoli Rhestredig ■ AE

Mae'r Cynllun Grant Mannau Addoli Rhestredig yn rhoi cymorthdaliadau at y TAW a godir yn sgîl trwsio a newid adeiladau rhestredig a ddefnyddir, yn bennaf, ar gyfer addoli cyhoeddus. Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Llywodraeth newidiadau yng nghwmpas a gweithrediad y cynllun, gan ehangu ei gylch dyletswydd i gynnwys gwariant ychwanegol. Am ragor o fanylion ewch at: <http://digbig.com/5bjdnf>

The Woodroffe Benton Foundation ■ AE

Mae'r Woodroffe Benton Foundation yn sefydliad annibynnol sy'n rhoi cymorthdal er budd Elusennau Cofrestredig y Deyrnas Unedig. Mae cymorthdaliadau bychain o £250 - £2,000 ar gael ym mhedwar dosbarth, un o ba rai yw 'Amgylchedd a Chadwraeth'. Am ragor o fanylion ewch at: <http://digbig.com/5bjdnn>

The Stuart Halbert Foundation ■ AE

Mae'r Stuart Halbert Foundation yn gronfa ymddiriedolaeth newydd a fydd yn ystyried ceisiadau am gymorth tan bedwar dosbarth eang, un o ba rai yw 'Lles Anifeiliaid'. Cynhelir y gronfa gan unigolion preifat a busnesau sy'n credu y gall cymorth ar yr adeg ac yn y man addas wneud gwahaniaeth mawr i gymdeithas. Mae Ymddiriedolwyr y Stuart Halbert Foundation yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn pwyso a mesur pob cais am gymorth. Am ragor o fanylion ewch at: <http://digbig.com/5bjdnm>

Elusennau, Cronfeydd Ymddiriedolaeth a Sefydliadau

Rhaglen Ddyngarol American Express

Fel rhan o Gyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol American Express mae'r busnes wedi sefydlu rhaglen ddyngarol sy'n dosbarthu grantiau i sefydliadau ym mhob cwr o'r byd. Un o dair prif nod y rhaglen yw cefnogi sefydliadau dielw â gweledigaeth sy'n 'gwarchod ac yn cynnal lleoedd hanesyddol unigryw ar gyfer y dyfodol'. Nid oes prosiectau'n cael eu cefnogi ym Mhrydain ar hyn o bryd. Am fwy o fanylion ewch at: <http://digbig.com/5bhwrq>

Arcadia ■ CW ■ DC

Prif genhadaeth Arcadia yw diogelu diwylliannau ac agweddau ar fyd natur sydd dan fygythiad. Mae hyn yn cynnwys ieithoedd sydd bron â marw, archifau hanesyddol prin ac arteffactau sy'n ddigon da i fod mewn amgueddfa, a diogelu ecosystemau ac amgylcheddau sydd dan fygythiad o gael eu difa. *Sylwer!* Nid yw Bwrdd Arcadia yn ystyried ceisiadau na ofynnwyd amdanynt. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bhcak>

Arthur Rank Centre ■ DC

Mae'r ganolfan wedi ymrwymo i gefnogi cymunedau gwledig, ac mae wedi sefydlu'r cynllun 'Cyfrifiaduron i Bobl Cefn Gwlad' er mwyn darparu cyfrifiaduron am brisiau isel iawn i annog pobl i gymryd y cam cyntaf. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bfdng>

The Asda Foundation ■ AE

Daeth y sefydliad i fodolaeth yn 1988 er mwyn cefnogi achosion da lleol a ddewisir gan y staff, ac mae'n cael ei ariannu gan elw o loteri genedlaethol canol yr wythnos. Nid oes blaenoriaethau penodol ac ystyrir pob cais yn ôl ei haeddiant. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bbrys>

The Ashden Awards ■ CG ■ MA ■ CW ■ AE ■ DC

Mae'r grantiau hyn ar gyfer sefydliadau sy'n sicrhau ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni yn lleol, a thrwy hynny'n cynnig manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bgdtr>

B&Q - Cynllun Rhoi Gwastraff ■ AE ■ DC

Gall grwpiau cymunedol, ysgolion ac elusennau ofyn am gymorth gan eu siop B&Q leol drwy gynllun gwastraff B&Q. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bgdtt>

The Baring Foundation ■ DC

Mae'r ymddiriedolaeth hon yn dyfarnu llawer o grantiau ac mae ganddi raglenni penodol sy'n ymwneud â'r canlynol: y celfyddydau, datblygu rhyngwladol a chryfhau'r sector gwirfoddol. Mae gan y sefydliad hefyd 'fentrau arbennig' o bryd i'w gilydd, ac mae un ohonynt yn ymwneud â newid yn yr hinsawdd. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bamyt>

The Bernard Sunley Charitable Foundation ■ AE

Dim ond i elusennau cofrestredig y mae'r Sefydliad yn rhoi grantiau, ac mae'r rhan fwyaf o'r grantiau'n llai na £10,000. Nod y rhan fwyaf ohonynt yw cynorthwyo prosiectau cymunedol, a rhoddir sylw penodol i bobl sydd dan anfantais ac i faterion amgylcheddol. Rhaid i geisiadau gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig i'r Cyfarwyddwr, ac maent yn cael eu hystyried yn rheolaidd. Manylion cysylltu: The Bernard Sunley Charitable Foundation, 20 Berkeley Square, Llundain, W13 6LH Ffôn: 020 7408 2198 Ebst: office@sunleyfoundation.com

The Brecon Beacons Trust ■ CG ■ CW ■ AE

Cwmni elusennol a sefydlwyd er mwyn helpu pobl, cymunedau a mudiadau gwirfoddol i wneud gwaith cadarnhaol er mwyn gwarchod a gwella'r amgylchedd **ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog** yw Ymddiriedolaeth Bannau Brycheiniog. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bacgk>

The Bromley Trust ■ CW ■ DC

Mae'r ymddiriedolaeth hon yn cefnogi elusennau yn y Deyrnas Unedig sy'n hybu cynaliadwyedd ac yn helpu i ddatblygu gwybodaeth a defnydd cyfrifol o adnoddau'r byd a phrosiectau sy'n ymdrin â newid yn yr hinsawdd. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bhtqw>

Cymdeithas Ecolegol Prydain ■ MA

Mae Cymdeithas Ecolegol Prydain yn cynnig ystod eang o grantiau i ariannu addysg ecolegol a phrosiectau ecolegol. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/4xnqj>

Calouste Gulbenkian Foundation ■ AE

Mae cangen y Deyrnas Unedig o'r sefydliad yn cefnogi nifer fach o syniadau a/neu brosiectau gwirioneddol eithriadol sy'n helpu i gyflawni amcanion penodedig. Mae un o'r amcanion hyn yn ymwneud â'r amgylchedd – yn enwedig yr amgylchedd morol. Bwriadwyd i'r grantiau gefnogi gwaith ymchwil a datblygu ac maent yn amrywio'n gyffredinol o £10,000 i £30,000. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5benkk>

Canoeing Foundation ■ AE

Mae'r sefydliad hwn yn gweithio er mwyn cael effaith gadarnhaol mewn pum prif faes: Pobl Ifanc, Cydraddoldeb, Cyfleusterau, Gwaith Rhyngwladol a Threftadaeth. Gwahoddir ceisiadau sy'n cefnogi grwpiau ac yn darparu cyfarpar y gellir eu defnyddio gan nifer o wahanol unigolion. Cynigir hyd at £1,000 o grant fel arfer. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bhnnq>

The Centre for Social Action Innovation Fund ■ DC

Mae £14 miliwn yn y gronfa hon. Ei nod yw cefnogi twf datblygiadau sy'n cydgrynhoi egni a thalentau pobl ac yn eu galluogi i helpu ei gilydd. Mae'n gweithio ochr yn ochr â gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r gronfa'n chwilio am fentrau a rhaglenni arloesol sy'n ceisio dylanwadu ar bedwar maes drwy weithredu cymdeithasol. Y meysydd hyn yw: Helpu pobl i heneiddio'n dda, galluogi pobl sydd â chyflyrau iechyd hirdymor i gael gwell ansawdd bywyd, cefnogi ac annog pobl ifanc i lwyddo a chael gwaith a defnyddio dulliau newydd i ddylanwadu ar wirfoddoli, gan helpu gwirfoddolwyr i gynyddu a gwella canlyniadau gwasanaethau cyhoeddus. Gall y Gronfa Arloesi gynnig symiau sy'n amrywio o £50,000 i £500,000 i fentrau neu raglenni unigol, ar ffurf grantiau fel arfer. <http://digbig.com/5bhnrx>

Charles Hayward Foundation ■ AE

Dim ond i elusennau cofrestredig y mae'r Sefydliad hwn yn dyfarnu grantiau. Mae maint y grantiau'n amrywio o £10,000 i £25,000. Rhoddir pwyslais ar ariannu prosiectau sy'n datblygu neu'n arloesi. Un maes penodol y mae gan y Sefydliad ddiddordeb ynddo yw prynu tir (neu adennill tir a brynwyd yn ddiweddar) i'w ddefnyddio ar gyfer gwarchodfeydd

natur neu erddi neu barciau yng nghanol dinasoedd ac ati. Maes arall o ddiddordeb yw treftadaeth ddiwydiannol. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bfdna>

The Chestnut Fund ■ CW

Elusen annibynnol yw hon, sy'n cynnig grantiau er mwyn annog a galluogi grwpiau cymunedol i ymgymryd â gweithgareddau cadwraeth. Gweinyddir y grantiau gan The Conservation Volunteers (TCV). Mae'r grantiau'n perthyn i ddau gategori: Grantiau cychwynnol o hyd at £150 a Grantiau Cefnogi o hyd at £350. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bjdmr>

The Clothworkers' Foundation ■ AE

Cafodd yr ymddiriedolaeth ei sefydlu yn 1977 gan The Clothworkers' Company. Dyma'r gangen annibynnol ar gyfer gwaith elusennol y Cwmni. Ers ei sefydlu, mae'r ymddiriedolaeth wedi dyfarnu gwerth £82 miliwn o grantiau. Nod y Sefydliad yw gwella bywydau pobl a chymunedau, yn enwedig y rhai sydd dan anfantais. Mae'n ceisio gwneud hyn drwy ariannu prosiectau cyfalaf amrywiol sy'n bodloni ei feini prawf cymhwyster. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bfwts>

Coalfields Regeneration Trust ■ DC ■ AE

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo er mwyn gwella ansawdd bywyd yng nghymunedau glofaol Prydain. Nod yr Ymddiriedolaeth yw gwneud meysydd glo'n gynaliadwy, yn llewyrchus, yn hyfyw ac yn gydlynol heb gefnogaeth. *Sylwer!* Mae tipyn o gystadleuaeth am arian yng Nghymru. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bhgjj>

Community Generation Fund ■ DC

Cafodd y Gronfa Brydeinig hon ei chreu er mwyn darparu catalydd i ddatblygu seilwaith ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i gymunedau ar raddfa eang. Nod y Gronfa yw darparu mynediad at gyfalaf ar adegau neu raddfeydd penodol yn ystod y prosiect lle mae'r angen mwyaf am gyllid, ond lle nad yw'n rhwydd cael gafael arno. Nid yw'r gronfa'n gynllun grant nac yn gynllun "cost isel / dim cost". Bydd y Gronfa'n ystyried maint prosiectau o gapasiti o 25kWp i fyny, yn amodol ar asesiad o hyfywedd technegol, hyfywedd ariannol ac effaith gymdeithasol. Mae'n debyg y bydd prosiectau arferol yn cynnwys cyfanswm costau dichonoldeb / cyn cynllunio o £20,000 hyd at uchafswm o £150,000 (yn dibynnu ar y dechnoleg a'r raddfa) a chostau adeiladu o £250,000 hyd at uchafswm o £2,000,000. I gael mwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bftsj>

The Co-operative Community Fund ■ AE

Mae grantiau Cronfa Gymunedol 'The Co-operative Group' sy'n werth rhwng £100 a £2,000 yn cael eu dyfarnu i grwpiau cymunedol a gwirfoddol neu grwpiau hunan-gymorth, er mwyn eu helpu i drefnu prosiectau sy'n bodloni'r meini prawf a ganlyn: mynd i'r afael â mater cymunedol, darparu budd hirdymor da i'r gymuned, cefnogi gwerthoedd ac

egwyddorion cydweithredol ac, yn ddelfrydol, dangos dulliau arloesol.
<http://digbig.com/5bdnes>

Country Land and Business Association (CLA) ■ CG ■ MA

Mae Ymddiriedolaeth Elusennol y CLA yn dyfarnu grantiau sy'n werth tua £2,500 i brosiectau sy'n ceisio hybu addysg am gefn gwlad a gwella mynediad i gefn gwlad, i bobl anabl a phobl sydd dan anfantais. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/4xngm>

Cronfa Gymunedol ac Amgylcheddol CWM - Cymru

Mae grantiau ar gael gan Gronfa Gymunedol ac Amgylcheddol CWM ar gyfer prosiectau cymunedol ac amgylcheddol yn **Sir Gaerfyrddin**. Mae tua £200,000 ar gael bob blwyddyn a bydd y grantiau i gyd rhwng £5,000 a £50,000. Y dyddiad cau nesaf yw'r 7^{fed} o Ebrill 2014. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bbryj>

D'Oyly Carte Charitable Trust ■ AE

Mae'r Ymddiriedolaeth yn dosbarthu grantiau sy'n werth rhwng £500 a £5,000. Mae'r blaenoriaethau presennol yn cynnwys: gwarchod cefn gwlad a choetiroedd – â phwyslais ar annog gwaith gwirfoddol a chymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol; gwarchod rhywogaethau a chynefinoedd yn y Deyrnas Unedig sydd dan fygythiad neu sy'n prinhau. Dylai elusennau sy'n dymuno ymgeisio am gymhorthdal ysgrifennu at yr Ysgrifennydd gyda chynnig amlinellol, neu roi galwad teleffon os oes angen cyfarwydded. Cysylltwch â: Mrs Jane Thornew, Secretary, 1 Savoy Hill, London WC2R 0BP. Ffôn: 020 7420 2600.

Dulverton Trust ■ CW ■ AE

Erbyn hyn mae'r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru'n gweinyddu grantiau ar ran yr Ymddiriedolaeth. Y prif feysydd y mae'r Ymddiriedolaeth yn ymwneud â hwy yw: Cyfleoedd i Bobl Ifanc, Lles Cyffredinol, Gwarchod a Chadw. Dyfernir grantiau sy'n amrywio o £500 i £5,000 i elusennau a sefydliadau bychain sydd fel arfer ag incwm blynyddol o lai na £200,000. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bdxag>

EDF Energy Green Fund ■ AE

Mae'r Gronfa hon wedi dyfarnu dros £4.6m i 260 o brosiectau cymunedol ledled y Deyrnas Unedig er 2001. Mae cwsmeriaid sydd ar y Tariff Gwyrdd yn talu premiwm bychan ar eu biliau trydan. Mae'r cwmni wedyn yn cyfateb eu cyfraniadau ac yn defnyddio hyn i helpu i gefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r Gronfa Werdd yn dyfarnu grantiau i sefydliadau sy'n gwneud cais am arian i helpu i dalu costau technoleg ynni adnewyddadwy y gellir ei defnyddio i gynhyrchu ynni gwyrdd o'r haul, gwynt, dŵr, pren a ffynonellau adnewyddadwy eraill. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bgghe>

Edge Fund ■ AE ■ DC

Mae Edge Fund yn ceisio cefnogi cymunedau, grwpiau ymgyrchu a gweithredwyr sy'n brwydro i gael cyfiawnder cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, yn enwedig y rhai hynny sy'n wynebu gwahaniaethu ac anghyfiawnder, neu'n gweithio er mwyn cael newid systematig. Mae'r gronfa'n rhoi blaenoriaeth i grwpiau bychain, nad ydynt yn cael eu hariannu. Y mathau o weithgareddau a fydd yn cael eu cefnogi yw: ymgyrchu, ymchwil, cynyddu ymwybyddiaeth, hyrwyddo cyfle cyfartal a phrosiectau amgylcheddol. Mae grantiau bach o hyd at £5,000 ar gael. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bhqjt>

The Ernest Cook Trust ■ CG

Mae'r ymddiriedolaeth hon yn cynnig rhaglen eang o weithgareddau dysgu sy'n ymwneud â'r tir i blant a phobl ifanc. Mae gwaith sy'n annog neu'n sicrhau parhad sgiliau a chrefftau gwledig o ddiddordeb arbennig i'r Ymddiriedolwyr. *Sylwer!* Disgwylir i bob cais fod yn gysylltiedig â'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu â chymwysterau cydnabyddedig. Mae grantiau bach ar gael (hyd at £4,000) a grantiau mawr (dros £4,000). Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bhtqx>

The Esmée Fairbairn Foundation ■ CW ■ AE

Mae Sefydliad Esmée Fairbairn yn dyfarnu llawer o grantiau. Mae ei brif raglen grantiau, ymhlith pethau eraill, yn ceisio ariannu prosiectau sy'n canolbwyntio'n benodol ar yr amgylchedd naturiol. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/4xngg> Mae rhaglen *Grantiau Penodol* y Sefydliad yn ceisio ariannu gwaith penodol. Gwahoddir ceisiadau ar hyn o bryd sy'n ymwneud â'r canlynol: Bwyd – ceisio hybu dealltwriaeth o rôl bwyd er mwyn gwella ansawdd bywyd. Cronfa Gasgliadau Esmée Fairbairn (yn cael ei rhedeg gan Gymdeithas yr Amgueddfeydd) sy'n canolbwyntio ar waith casglu o fewn terfynau amser sydd y tu allan i gwmpas adnoddau craidd sefydliad. Cronfa Gyllid – yn ceisio ategu grantiau'r Sefydliad â benthyciadau a buddsoddiadau eraill i elusennau a mentrau cymdeithasol yn y meysydd sydd o ddiddordeb i ni. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bbryk>

The February Foundation ■ AE

Mae'r sefydliad hwn yn cynnig grantiau i achosion elusennol dewisol. Ariennir nifer o feysydd, gan gynnwys 'elusennau sy'n diogelu'r amgylchedd'. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/4ydgq>

Cyngor Astudiaethau Maes – Cronfa Plant ■ AE

Mae'r Gronfa Plant yn cael ei hariannu gan roddion a'i nod yw helpu pobl ifanc sydd dan anfantais i gael gwell dealltwriaeth o'r amgylchedd drwy fynychu cwrs yn un o ganolfannau'r Cyngor Astudiaethau Maes. Mae hefyd yn helpu pobl ifanc dan anfantais, a fyddai'n cael eu cau allan fel arall o bosib, i fynychu cwrs. Croesewir ceisiadau unrhyw bryd, ond byddant yn cael eu cadw tan y rownd benderfyniadau nesaf. Bydd y rowndiau'n cau ar 1 Chwefror, 1 Mehefin ac 1 Hydref bob blwyddyn. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bfdnj>

Finnis Scott Foundation ■ AE

Gall Ymddiriedolwyr y sefydliad ddyfarnu grantiau ar gyfer unrhyw ddiben elusennol, ond eu polisi presennol yw canolbwyntio ar feysydd garddwriaeth a gwyddorau planhigion, yn ogystal â chelfyddyd a hanes celf. Mae'r grantiau fel arfer rhwng £500 a £10,000. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bhca>

Ford Britain Trust ■ AE

Mae Ford Britain Trust wedi ymrwymo i gefnogi'r cymunedau sy'n agos at eu gweithfeydd cynhyrchu ceir. Yng Nghymru mae hyn yn golygu'r ardal sy'n 'agos' at y gwaith ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhoi sylw arbennig i brosiectau sy'n canolbwyntio ar addysg, yr amgylchedd, plant, pobl anabl a gweithgareddau ieuencid. Mae dau fath o grant ar gael. Grantiau 'bach' sy'n werth hyd at £250 (bedair gwaith y flwyddyn) a grantiau 'mawr' sy'n werth hyd at £3,000 (ddwywaith y flwyddyn). Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bfwt>

The Foyle Foundation ■ AE

Ymddiriedolaeth annibynnol yw hon sy'n dosbarthu grantiau i elusennau yn y Deyrnas Unedig. Ers iddi gael ei sefydlu yn Nhachwedd 2001, mae wedi dosbarthu tua £49M o grantiau drwy ei Chynllun Prif Grantiau i gefnogi elusennau y mae eu gwaith craidd yn ymwneud â'r Celfyddydau a Dysgu a Chynllun Grantiau Bach ar gyfer elusennau bach ym mhob maes. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bghqh>

Free Tree ■ AE

Mae FreeTree yn rhoi coed am ddim i unigolion, grwpiau cymunedol ac ysgolion neu sefydliadau addysgol lleol eraill. Gall y rhain fod yn goed llydanddail collddail neu'n goed ffrwythau/cnau i'w plannu mewn gerddi, mannau cymunedol neu goetir. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5benmw>

Gannett Foundation ■ AE

Mae'r Sefydliad hwn yn darparu cyllid i gefnogi mudiadau lleol yn yr ardaloedd hynny yn y DU lle mae Newsquest yn gweithio. Mae'n cefnogi prosiectau sy'n edrych yn greadigol ar faterion sylfaenol fel addysg a gwella'r gymdogaeth, datblygu economaidd, datblygu ieuencid, datrys problemau lleol, cymorth i bobl anabl neu bobl sydd dan anfantais, *gwarchod yr amgylchedd* a chyfoethogi diwylliant. Mae'r grantiau'n amrywio o £5,000 i £10,000 fel arfer. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5besqn>

The GD Charitable Trust ■ AE

Mae'r ymddiriedolaeth yn rhoi blaenoriaeth i ddyfarnu grantiau mewn nifer o feysydd elusennol, gan gynnwys gwarchod yr amgylchedd. Nid yw'n gronfa fawr ac mae'r grantiau a ddyfarnwyd yn y gorffennol wedi amrywio'n fawr o ran maint. *Sylwer!* Nid oes gwefan. Gellir cael mwy o fanylion drwy gysylltu â G D Charitable Trust, 50 Broadway, Westminster, Llundain SW1H 0BL. Ffôn 020 7227 7000.

The Garfield Weston Foundation ■ AE

Mae'r Garfield Weston Foundation yn elusen fawr sy'n gweithredu yn y Deyrnas Unedig ac sy'n dyfarnu grantiau cyffredinol i elusennau cofrestredig gan mwyaf. Mae'r rowndiau ariannu diweddar wedi helpu prosiectau yn y categorïau isod: y Celfyddydau, y Gymuned, Addysg, Lles, Materion Meddygol, Materion Cymdeithasol, Crefydd, Ieuencid a'r *Amgylchedd*. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5benkq>

Grantiau 'Grants up for Grabs' HIPPOWASTE ■ AE

Mae'r cynllun 'Grants up for Grabs' yn cynnig cymorth gwaredu gwastraff am ddim i geisiadau gan elusennau, grwpiau cymunedol a sefydliadau o bob cwr o'r DU sy'n ysbrydoli pobl i barchu'r amgylchedd neu'n cael effaith gadarnhaol ar y gymuned. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5benms>

The Idlewild Trust ■ CW

Mae'r ymddiriedolaeth hon yn dyfarnu grantiau sy'n cefnogi elusennau cofrestredig sy'n ymwneud ag annog rhagoriaeth mewn celfyddydau perfformio a chelfyddyd gain a chadw adeiladau ac eitemau o ddiddordeb hanesyddol neu o bwysigrwydd cenedlaethol er budd y cyhoedd. Cynigir cefnogaeth yn achlysurol er mwyn *gwarchod yr amgylchedd naturiol*. Mae'r grantiau'n werth rhwng £1,000 a £2,000. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/4ydmd>

Inland Waterways Association ■ AE

Mae'r gymdeithas hon yn dyfarnu grantiau o'i Chronfa Grantiau Adfer i sefydliadau sy'n hyrwyddo'r gwaith o adfer dyfrffyrdd mewnol y gellir eu mordwyo, neu yr arferid gallu eu mordwyo, yng Nghymru a Lloegr. Mae'r grantiau'n werth hyd at £5,000 fel arfer, ond mae grantiau o hyd at £15,000 ar gael a gellir cynnig grantiau mwy fyth mewn achosion eithriadol. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bfdnc>

Jerwood Charitable Foundation ■ AE

Mae'r Ymddiriedolaeth yn canolbwyntio ar gyllido'r celfyddydau mewn modd cyfrifol a llawn dychymyg. Mae'n buddsoddi tua £1.5M y flwyddyn i ddatblygu unigolion talentog ac ymroddedig ar adegau o newid yn eu gyrfaoedd, ac mae'n gweithredu'n bennaf drwy bartneriaethau â sefydliadau arbennig sy'n ymwneud â'r celfyddydau ledled y DU. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bhcba>

The JJ Charitable Trust ■ AE ■ DC

Mae'r Ymddiriedolaeth hon yn rhan o'r 'Sainsbury Family Charitable Trusts', ac mae'n ariannu prosiectau addysg amgylcheddol yn y Deyrnas Unedig, yn enwedig y rhai hynny sy'n ymwneud â'r canlynol: canfod ffyrdd ymarferol o gynnwys plant ac oedolion ifanc; amaethyddiaeth gynaliadwy a bioamrywiaeth; trafnidiaeth gynaliadwy, effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy (mae rhai grantiau yn y maes hwn yn cael eu dyfarnu ar y cyd ag Ymddiriedolaeth Mark Leonard). Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bckye>

The Jephcott Charitable Trust ■ CG ■ CW ■ AE ■ DC

Mae gan yr ymddiriedolaeth hon arian ar gyfer 'yr amgylchedd naturiol'. Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhoi blaenoriaeth i daliadau untro i brosiectau sy'n cael anhawster i ddechrau neu i gael arian o rywle arall. Mae'r grantiau'n amrywio o £2,000 i £10,000. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/4xngf>

The John Ellerman Foundation ■ CW ■ DC ■ AE

Mae'r sefydliad hwn yn dyfarnu grantiau mewn tri categori, sef y Celfyddydau, Cadwraeth, a Lles. Ar hyn o bryd mae'r gwaith ariannu'n canolbwyntio ar elusennau yn y Deyrnas Unedig sy'n gweithio ar lefel genedlaethol ar hyd a lled y Deyrnas Unedig. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5banat>

Lloyds TSB Foundations ■ AE

Mae'r sefydliad Lloyds TSB yn ariannu elusennau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n ceisio mynd i'r afael ag anfantais yng Nghymru a Lloegr. Mae'n canolbwyntio ar gefnogi elusennau bach a chanolig, nad ydynt yn cael llawer o arian, ond a allai wneud gwahaniaeth mawr i fywydau pobl dan anfantais drwy eu helpu i chwarae rhan lawnach yn y gymuned. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bafef>

Lord Barnby's Foundation ■ AE

Mae'r Sefydliad yn dyfarnu grantiau i gyrrff elusennol a chrefyddol, yn bennaf ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud â'r amgylchedd, cadwraeth a threftadaeth. Mae'r grantiau fel arfer rhwng £1,000 a £5,000. Mae'r broses ymgeisio'n un barhaus a gall darpar ymgeiswyr ymgeisio ar unrhyw adeg. Dylid gwneud ceisiadau yn ysgrifenedig a dylent gynnwys disgrifiad byr o'r sefydliad a'r prosiect a chopi o gyfrifon diweddaraf y sefydliad. Dylid anfon ceisiadau i: PO Box 71, Plymstock, Plymouth, Devon PL8 2YP.

Lush Charity Pot ■ CW ■ AE ■ DC

Mae'r Lush Charity Pot yn cael ei ariannu gan gwmni Lush, cwmni cynhyrchu nwyddau harddwch sydd ag egwyddorion moesegol. Mae 100% o bris prynu cynnyrch sydd wedi ei greu'n benodol (ac eithrio trethi!) yn mynd tuag at gefnogi achosion dyngarol, amgylcheddol a hawliau anifeiliaid yn y DU ac mewn rhannau eraill o'r byd. Ers ei lansio yn 2007, mae Charity Pot wedi cyfrannu bron i ddwy filiwn o bunnoedd. Mae'r rhan fwyaf o'r arian yn cael ei ddyrannu i grwpiau bach, sy'n gweithio ar lawr gwlad, ac sy'n aml yn y sefyllfa orau i wneud gwahaniaeth go iawn. Ychydig o adnoddau sydd gan y rhain fel arfer. Mae'r gefnogaeth yn amrywio o ychydig gannoedd o bunnoedd i uchafswm o £10,000 y prosiect. Mae'r grantiau arferol yn werth tua £4,000. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bhqjw>

The Mark Leonard Trust ■ AE

Mae'r Ymddiriedolaeth hon, sy'n un o Ymddiriedolaethau Elusennol y Teulu Sainsbury, yn canolbwyntio ar gynnig grantiau i gefnogi addysg amgylcheddol, yn enwedig y prosiectau hynny sy'n canfod ffyrdd ymarferol o gynnwys plant ac oedolion ifanc; amaethyddiaeth

gynaliadwy a bioamrywiaeth; trafndiaeth gynaliadwy, effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy. Mae rhai grantiau yn y maes hwn yn cael eu dyfarnu ar y cyd ag Ymddiriedolaeth Elusennol JJ. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bdxax>

Marine Stewardship Fund ■ AA

Sefydlwyd y gronfa hon i gynnig cymorth i fentrau a rhaglenni sy'n helpu i ddatblygu'r arferion gorau, ac sy'n gwneud cyfraniad sylweddol i'r gwaith o reoli a gwarchod Ystâd Forol y Goron. Mae pum prif faes blaenoriaeth ar gyfer cyllid: Hygyrchedd, Ymwybyddiaeth, Bioamrywiaeth, yr Amgylchedd a Rheolaeth. *Sylwer!* Rhaid i brosiectau grwpiau cymunedol fod â chysylltiad clir â thir Ystâd y Goron. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bhcam>

The Mercers' Charitable Foundation ■ AE

Prif nod yr Elusen yw cynnig grantiau a rhoddion er budd ystod eang o ddibenion elusennol gan gynnwys lles, addysg, y celfyddydau, treftadaeth a chrefydd. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bqhnt>

Millennium Stadium Charitable Trust ■ CW ■ TW ■ AE

Mae Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm yn annog ceisiadau sy'n ymwneud ag ailgylchu, datblygu manau gwyrdd, datblygu a hyrwyddo arferion gwyrdd a hyrwyddo cynlluniau trafndiaeth gyhoeddus. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnig grantiau ar sail maint yr ardal ddaearyddol y mae sefydliad yn gyfrifol amdani; lleol hyd at £2,500, rhanbarthol hyd at £7,500, cenedlaethol hyd at £12,500. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bhqjm>

Moto in the Community Trust ■ AE

Mae'r ymddiriedolaeth hon yn ariannu *Cynllun Grantiau Cymunedol*, ac un o flaenoriaethau'r cynllun hwn yw prosiectau cadwraeth ymarferol megis glanhau llynnoedd, glannau afonydd ac ardaloedd llawn tyfiant, tacluso llwybrau, creu meysydd chwarae a gerddi cymunedol. Mae'r grantiau'n amrywio o £150 i £1,000. *Sylwer!* Rhoddir blaenoriaeth i brosiectau sydd wedi eu lleoli o fewn 25 milltir o safleoedd Moto. Yng Nghymru, mae hyn yn golygu cyffyrdd 47 (Abertawe) a 33 (Caerdydd) yr M4. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bhnnr>

Cronfa Budd Cymunedol Fferm Wynt Mynydd y Betws ■ AE ■ DC

Mae'r cyllid ar gyfer prosiectau a mentrau sy'n creu cymunedau llewyrchus a chynaliadwy, gan gael gafael ar gyllid allanol ychwanegol a rhoi sylw i'r angen lleol. Mae'r Gronfa Budd Cymunedol ar gyfer prosiectau sy'n cael eu gweithredu yn y wardiau a ganlyn: Rhydaman, Betws, Garnant, Glanaman, Llandybie, Pontaman, Penygroes, Saron, Tŷ-croes, Cwarter Bach. Mae cyfanswm o £665,000 ar gael i ddechrau ynghyd ag £86,500 y flwyddyn ar gyfer y 25 mlynedd nesaf. Rheolir y gronfa gan Gyngor Sir Caerfyrddin. I gael rhagor o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bhnr>

National Churches Trust ■ AE

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi amrywiaeth eang o brosiectau drwy ei Rhaglenni Grantiau. Grantiau Atgyweirio o £10,000 - £40,000 ar gyfer gwaith atgyweirio strwythurol brys mewn prosiectau sy'n costio dros £50,000. Grantiau Partneriaeth o £2,500 - £10,000 ar gyfer prosiectau atgyweirio brys yr amcangyfrifir bod eu costau'n llai na £50,000. Grantiau Cymunedol o £5,000 - £25,000 tuag at gost gosod cyfleusterau hanfodol, fel ceginau a thoiledau, a gwella mynediad i bobl sydd ag anghenion arbennig / anabledau. Mae rhaglen gymhorthdal eleni wedi'i chau: gobeithia'r Ymddiriedolaeth agor cylch newydd yn Ionawr 2014. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bhccb>

The Naturesave Trust ■ AE

Mae'r ymddiriedolaeth hon yn ceisio hybu datblygu cynaliadwy, yn enwedig mewn busnesau bach a chanolig. Mae'r ymddiriedolaeth wedi ariannu prosiectau amrywiol, gan gynnwys; mentrau ynni adnewyddadwy, gwarchod a rheoli bywyd gwylt, ailgylchu a chynlluniau trafndiaeth gynaliadwy. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/4ypyc>

The Newport Fund ■ DC

Mae'r Gronfa hon yn cefnogi grwpiau cymunedol, elusennau lleol a mentrau cymdeithasol yng Nghasnewydd. Mae'r themâu a gefnogir yn cynnwys addysg, iechyd a lles, pobl ifanc, a phrosiectau cymunedol. Gwahoddir ceisiadau am grantiau sy'n werth rhwng £200 a £2,000 unwaith y flwyddyn. Mae'r dyddiad cau ar gyfer eleni newydd fod. Rheolir y gronfa gan y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bhcap>

Oak Foundation ■ AE ■ DC

Mae'r Oak Foundation yn sefydliad rhyngwladol mawr sy'n dyfarnu grantiau. Ers ei sefydlu, mae wedi dyfarnu dros 2,700 o grantiau i sefydliadau dielw ym mhob cwr o'r byd, a dyrannodd werth £97.5M o grantiau yn 2012. Mae'r Sefydliad yn ymrwmo ei adnoddau i fynd i'r afael â materion sy'n peri pryder o safbwynt cymdeithasol ac amgylcheddol mewn gwahanol rannau o'r byd, yn enwedig materion sy'n cael effaith fawr ar fywydau pobl sydd dan anfantais. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bhstsw>

The Oakdale Trust ■ AE

Mae'r ymddiriedolaeth hon yn rhoi blaenoriaeth wrth ddyrannu cyllid i elusennau Cymreig sy'n ymwneud â phrosiectau cymdeithasol, meddygol a *chadwraethol*. Nid oes gwefan, felly ffoniwch 01832 226386 neu anfonwch ebost i oakdale@tanh.demon.co.uk

The Pilgrim Trust ■ AE ■ DC

Nod yr Ymddiriedolaeth yw gwarchod a hyrwyddo asedau hanesyddol a deallusol Prydain a rhoi cymorth i aelodau o'r gymdeithas sy'n agored i niwed. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymddiddori mewn dau brif faes: cadwraeth ac ysgoloriaethau; a lles cymdeithasol. Cynigir grantiau drwy ddau gynllun: y brif gronfa grantiau (dros £5,000) a'r gronfa grantiau bach

(£5,000 neu lai). Derbynnir ceisiadau unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn a chânt eu hasesu fel rhan o raglen dreigl. I gael rhagor o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bhnry>

Grantiau Amgylcheddol Patagonia ■ CG ■ CW ■ AA ■ DC

Cwmni Americanaidd preifat sy'n gwerthu dillad ac offer awyr agored yw Patagonia. Mae wedi ei leoli yn yr Unol Daleithiau ond mae'n gweithredu mewn nifer o wahanol wledydd, gan gynnwys Prydain. Mae'n cynnig grantiau i grwpiau amgylcheddol dielw sy'n ymwneud â'r maes yn y gwledydd lle mae'n gweithio. Dim ond gwaith amgylcheddol sy'n cael ei ariannu gan Patagonia. Yn fwyaf arbennig, mae'n awyddus i gynnig grantiau i sefydliadau sy'n mynd at wraidd problemau ac sy'n dangos ymrwymiad i newid hirdymor. Mae'r rhan fwyaf o'r grantiau yn werth rhwng \$3,000 a \$8,000. Cynhelir dwy rownd ariannu bob blwyddyn ac mae'r dyddiadau cau yn niwedd Ebrill ac Awst. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bgpdg>

The Paul Hamlyn Foundation ■ AE

Mae'r sefydliad hwn yn un o'r sefydliadau dyfarnu grantiau annibynnol mwyaf yn y Deyrnas Unedig. Nid yw ariannu prosiectau sy'n ymwneud â chefn gwlad neu'r amgylchedd ymhlith ei flaenoriaethau craidd, ond gall dderbyn ceisiadau sy'n gallu dangos effaith ehangach prosiectau sydd â'u hamcanion yn gysylltiedig â'i ddiddordeb yn y canlynol; Y Celfyddydau, Addysg a Dysgu a Chyfiawnder Cymdeithasol. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bhtqy>

People's Health Trust – Active Communities Programme ■ DC

Nod y rhaglen hon yw cau'r bwloch rhwng y cymunedau hynny sydd â'r iechyd gwaethaf a'r rhan fwyaf o'r boblogaeth. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar bobl sy'n byw yn y cymdogaethau tlotaf. Mae'r grantiau a gynigir yn addas i brosiectau sydd: yn gwneud cais am swm rhwng £5,000 a £25,000; yn para am hyd at 18 mis; wedi eu lleoli ac yn gweithredu yn un o ardaloedd 'cymdeithas leol' y rhaglen; ac yn cael eu rhedeg gan elusennau lleol a grwpiau cymunedol ag incwm o lai na £200,000 y flwyddyn. Mae'r rhaglen yn cael ei gweithredu mewn nifer o'r ardaloedd cymdeithas leol, mewn cylchdro. Am fwy o wybodaeth ewch i: <http://digbig.com/5bhgjp>

People's Postcode Trust ■ AE ■ DC

Elusen annibynnol yw hon. Mae'n darparu grantiau ac yn ceisio gwneud gwahaniaeth go iawn i fudiadau, cyrff a grwpiau cymunedol bach ar hyd a lled y wlad. Mae'r symiau sydd ar gael i brosiectau unigol yn amrywio o £500 i £5,000 (yng Nghymru). Cynigir grantiau i ddibenion amrywiol, ac un o'r rhain yw hybu a datblygu'r gwaith o warchod neu wella'r amgylchedd. Rhaid i brosiectau llwyddiannus ddangos bod ganddynt bwrpas elusennol clir a'u bod yn gallu dangos canlyniadau amlwg cyn pen 6 mis ar ôl cael y grant. Ni ddylai'r prosiect ei hun bara am fwy na 3 mis. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5benmn>

People's Trust for Endangered Species ■ AE ■ CW

Mae'r Ymddiriedolaeth yn croesawu ceisiadau gan gyrff cadwraeth gwirfoddol am gymorth ariannol ar gyfer gwaith sy'n ymwneud â gwarchod mamaliaid. Mae'r meysydd gwaith sy'n dderbyniol ar gyfer cymorth ariannol yn cynnwys ymchwil wyddonol, gwaith ymarferol i reoli cynefinoedd, rhaglenni ailgyflwyno a monitro a phrosiectau addysgol. Ar gyfartaledd, mae'r grantiau'n werth tua £9,000. Ystyrir y ceisiadau gan grŵp ymgynghorol yn Rhagfyr bob blwyddyn. Mae'r dyddiad cau nesaf ar gyfer y cylch cymhorthdal presennol newydd fynd heibio. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bfdnb>

Peter de Haan Charitable Trust ■ AE

Mae'r Ymddiriedolaeth yn dyfarnu grantiau i sefydliadau sy'n ceisio gwella ansawdd bywyd pobl a chymunedau yn y DU yn y tri maes hyn: Lles Cymdeithasol, *Yr Amgylchedd* a'r Celfyddydau. Mae rhaglen yr Amgylchedd yn cefnogi prosiectau yn y DU sy'n brwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd neu'n lliniaru ei effeithiau. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bghnx>

The Plunkett Foundation – Rhaglen Craidd Pentref ■ AE

Mae'r sefydliad hwn yn darparu cefnogaeth benodol i gymunedau sy'n awyddus i sefydlu a rhedeg siop wledig sy'n eiddo i'r gymuned. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bhcan>

Polden Puckham Charitable Foundation ■ DC ■ AE

Mae'r sefydliad yn ariannu grwpiau yn y Deyrnas Unedig sy'n ceisio dylanwadu ar bolisiau, agweddau a gwerthoedd yn genedlaethol neu'n rhyngwladol, gan gynnwys mentrau cenedlaethol yn y Deyrnas Unedig sy'n hybu *byw'n gynaliadwy*. Mae'r sefydliad yn rhoi ystyriaeth arbennig i sefydliadau pencadlys arloesol bychain. Mae'r grantiau fel arfer yn werth rhwng £5,000 a £15,000 y flwyddyn. Maent am gyfnod o hyd at dair blynedd, ac maent yn cefnogi sefydliadau y byddai hyn yn cyfateb i rhwng 5% a 50% o'u hincwm blyneddol. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5banax>

The Prince's Countryside Fund ■ CG ■ AA ■ CW ■ TW

Mae Cronfa Cefn Gwlad y Tywysog yn cefnogi prosiectau sy'n gydnaws ag un neu ragor o dri amcan y Gronfa: gwneud ffermio a chymunedau gwledig yn fwy cynaliadwy ym Mhrydain, gan dargedu'r ardaloedd sydd â'r angen mwyaf; ailgysylltu defnyddwyr â materion cefn gwlad; a chefnogi elusennau sy'n ymwneud â ffermio ac argyfwng yng nghefn gwlad drwy ffrwd gyllido benodol ar gyfer argyfwng. Mae'r Gronfa wedi ymrwymo i gefnogi tri phrosiect i ddechrau. Bydd y Gronfa'n ailagor ym mis Medi. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bcgwj>

The Pfizer UK Foundation ■ DC

Sefydlwyd Pfizer UK Foundation yn 2005 er mwyn cefnogi sefydliadau gofal iechyd yn y DU sy'n gweithio ar lefel leol i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ym maes iechyd sy'n cael

ei achosi gan ffactorau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol a demograffig. Sylwer bod y Sefydliad yn gwneud llawer o newidiadau i'w raglen grantiau. Bydd manylion am y rhaglen newydd ar ei newydd wedd ar gael ar y wefan cyn bo hir. I gael mwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bgdwk>

RBS Community Business Loan ■ DC

Mae'r Royal Bank of Scotland yn buddsoddi £5 miliwn yng Nghronfa Micro-gyllid RBSG, elusen annibynnol, sy'n cael ei chefnogi gan RBS. O ganlyniad i'r gefnogaeth hon, mae'r Elusen wedi lansio gwerth £5 miliwn o Fenthyciadau i Fusnesau Cymunedol. Sefydlwyd Cronfa Micro-gyllid RBSG er mwyn helpu darpar entrepreneuriaid cymdeithasol, a rhai sy'n bodoli'n barod, sy'n methu â chael cyllid drwy'r sianeli prif ffrwd arferol. Mae'r gronfa'n cynnig cymorth ariannol er mwyn dechrau neu ehangu busnes cymunedol. Gall busnesau cymwys wneud cais am fenthyciadau sy'n werth rhwng £30,000 a £500,000. Gall elusennau, mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol a chwmnïau buddiannau cymunedol sy'n gweithredu yn y DU ymgeisio. I fod yn gymwys i gael cyllid, rhaid i'r sefydliad fod ag amcanion cymdeithasol neu amgylcheddol clir ac ail-fuddsoddi elw i ddiben cymdeithasol. Gellir cyflwyno ceisiadau unrhyw bryd. I gael mwy o wybodaeth am y gronfa ewch i: <http://digbig.com/5bhtra>

Cronfa Prosiect Cymunedol Resolfen, y Clun a Melin y Cwrt ■ AE ■ DC

Cynllun budd cymunedol sy'n cael ei weinyddu gan y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru a'i ariannu gan Fferm Wynt Ffynnon Oer er budd trigolion Resolfen, y Clun a Melin y Cwrt, yng Nghwm Nedd yw'r gronfa hon. Mae grantiau o hyd at £5,000 ar gael i gefnogi grwpiau cymunedol a gwirfoddol lleol sy'n ymwneud â phrosiectau amgylcheddol neu addysgol a phrosiectau cymunedol eraill. Mae'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau newydd fod. I gael mwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bdxah>

RWE Npower Renewables - Cronfeydd Budd Cymunedol ■ AE

Tair rhaglen gymunedol er budd trigolion yr ardaloedd daearyddol o amgylch ffermydd gwynt Taf-Elai, Carno a Llyn Alaw, sydd i gyd yn cael eu gweithredu gan gwmni RWE npower renewables. Mae grantiau, sy'n werth hyd at £1,500, ar gael i gefnogi grwpiau cymunedol a gwirfoddol lleol sy'n ymwneud â phrosiectau amgylcheddol, addysgol a chymunedol. **Sylwer!** Mae'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau newydd fod. Bydd manylion rowndiau ariannu'r dyfodol i'w gweld ar wefan y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bfkmh>

The Salters' Charitable Foundation

Yn dilyn adolygu blaenoriaethau strategol yn ddiweddar, mae'r sefydliad hwn wedi canolbwyntio'i gymorthdaliadau ar ddwy brif thema, nad yw'r un ohonynt, yn anffodus, yn berthnasol i'r themâu a gynhwysir yn y Newyddlen hon. Am ragor o fanylion, ewch at <http://digbig.com/5bhwsr>

The Santander Foundation ■ AE

Mae gan y sefydliad hwn ddwy raglen gymhorthdal ar gyfer helpu pobl tan anfantais yn y Deyrnas Unedig: mae Community Plus yn darparu cymorthdaliadau o hyd at £5,000. Mae'r cynllun ar agor i elysennau bychain, lleol y Deyrnas Unedig, neu brosiectau lleol elusennau cenedlaethol, gydag arian ar gael ar gyfer cyflogau, offer neu ddeunyddiau. Mae'r Central Fund yn cynnig cymorthdaliadau o hyd at £10,000. Mae'r cynllun ar agor i elusennau neu Undebau Credyd yn unrhyw le yn y Deyrnas Unedig, ar gyfer prosiectau perthynol i addysg, hyfforddiant neu alluogrwydd ariannol. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5benks>.

Tesco Charity Trust Community Awards ■ AE

Mae Cynllun Grantiau Cymunedol Ymddiriedolaeth Elusennol Tesco'n darparu cyfraniadau untro sy'n werth rhwng £500 a £4,000 i brosiectau lleol sy'n cefnogi plant a'u haddysg a'u lles, yr henoed a phlant ac oedolion sydd ag anableddau. Mae'r Grantiau Mwy'n amrywio o £4,000 i £25,000 a'u nod yw cefnogi prosiectau lleol, cenedlaethol neu ryngwladol yn yr ardaloedd lle maent yn gweithredu. Am fwy o fanylion am y dyddiadau cau a'r broses ymgeisio ewch i: <http://digbig.com/5bhcarr>

Y Cyngor Coed ■ CG ■ CW ■ TW

Mae Prosiect Dyfodol Coed y Cyngor Coed yn cynnig cymorth i blannu coed. Anogir unrhyw ysgol neu grŵp cymunedol yn y Deyrnas Unedig sy'n bwriadu cynnal prosiect ar gyfer plant dan 16 oed i ddefnyddio arian o'r gronfa i blannu coed a chreu dyfodol gwyrddach. Gall y Cyngor gynnig rhwng £100 a £700 i brosiectau a bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cael hyd at 75% tuag at eu costau plannu. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bckyf>

Trusthouse Charitable Trust ■ DC ■ AE

Mae blaenoriaethau'r ymddiriedolaeth yn ymwneud â'r canlynol: Cefnogi Cymunedau, Y Celfyddydau ac Addysg, Anabledd a Gofal Iechyd. Grantiau bach: hyd at £10,000 (cyfalaf a reffeniw), £10,000 i £30,000 (cyfalaf yn unig). Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/4xddy>

The Wakeham Trust ■ CG ■ MA ■ CW ■ TW ■ AA ■ AE ■ DC ■ TDd

Mae'r ymddiriedolaeth hon yn darparu grantiau sy'n werth hyd at £750 i brosiectau cymunedol. Nid yw'n ffafrio unrhyw weithgaredd penodol, ond mae'n well ganddi ariannu prosiectau bach nad ydynt yn gallu cael arian o gronfeydd eraill. Rhaid i'r ymgeiswyr fod yn elusennau cofrestredig, neu'n gweithio gydag elusen sy'n gallu derbyn arian ar ran yr ymgeisydd. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/4xngc>

Waterloo Foundation ■ TW ■ AE

Mae'r Waterloo Foundation yn ddyfarnwr grantiau annibynnol a grëwyd yn 2007, ac fe'i lleolir yng Nghaerdydd. Prif ddiddordeb y sefydliad yw prosiectau sydd o gymorth byd-eang, yn enwedig ym meysydd gwahaniaeth cyfleoedd a chyfoeth, a defnydd

anghynaladwy o adnoddau naturiol y byd. Yng Nghymru, Mae'r sefydliad yn cefnogi prosiectau â thai cronfa o'r enw Cymru Ofalgar, Cymru Weithiol ac Ynni Cymunedol yng Nghymru. Canolbwynt y gronfa Ynni Cymunedol yng Nghymru yw darparu cymorthdaliadau bychain ar gyfer camau cyntaf, astudiaethau dichonolrwydd, cymorth technegol ayyb ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy sydd o fudd i gymunedau yng Nghymru. Maint y cymhorthdal sydd ar gael o dan y rhaglen hon yw £5,000 - £10,000, ar gyfartaledd. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bqdwf>

Waitrose Community Matters ■ DC ■ AE

Dan y cynllun hwn mae pob cangen yn cael £1,000 (neu £500 yn achos ein siopau cyfleustra) i'w rannu bob mis rhwng tri achos da lleol. Gall y rhain fod yn sefydliadau lles, grwpiau cymunedol, ysgolion neu ganghennau lleol o elusennau cenedlaethol. Bydd cwsmeriaid yn pleidleisio dros yr achos gorau yn eu barn hwy gan ddefnyddio tocyn gwyrdd bob tro y maent yn siopa, a bydd yr arian a roddir i bob achos da'n cyfateb yn uniongyrchol i'r tocynnau a gânt. Y cwsmeriaid fydd yn enwebu'r sefydliadau, a bydd y penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan fforymau PartnerVoice (cyrff democrataidd lleol Waitrose). Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bjdmw>

Wilkinsons – Helping Hands ■ AE

Menter gymunedol newydd gan Wilkinsons, un o siopau'r stryd fawr, yw Helping Hands. Mae pob siop leol wedi cael cyllideb i'w dosbarthu i brosiectau a chynlluniau yn y gymuned leol. Gallwch gael ffurflenni cais yn eich siop leol. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bfkmm>

The Will Charitable Trust

Mae'r ymddiriedolaeth hon yn cefnogi 'Gofalu am gefn gwlad, gan gynnwys ei blanhigion a'i anifeiliaid'. Cefnogir oddeutu 8 elusen y flwyddyn ac mae'r grantiau'n amrywio o tua £5,000 i £20,000. Yr elusennau sy'n bodoli i ddibenion cadwraethol yn bennaf yw'r rhai mwyaf tebygol o fod yn llwyddiannus. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5baref>

The Woodward Trust ■ AE

Mae'r ymddiriedolaeth hon yn ffafrio mentrau bychain lleol. Darperir cyllid ar gyfer prosiectau untro yn bennaf, ond mae'r Ymddiriedolwyr yn barod i ystyried cyllid ar gyfer costau craidd. Nid yw'r blaenoriaethau ariannu'n gysylltiedig â'r amgylchedd, ond gallai prosiectau amgylcheddol sydd ag elfen addysgol gref gael eu hystyried. Grantiau £100 i £10,000. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/4yshj>

Llywodraeth Ganolog a Chyllid Ewropeaidd

Cronfa Gynaliadwyedd yr Ardoll Agregau ar gyfer Cymru

■ CG ■ CW ■ TW ■ AE ■ DC ■ TDd

Nod y Gronfa hon yw rhoi sylw i'r costau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â chloddio am agregau. Defnyddir y gronfa yng Nghymru i roi sylw i'r materion canlynol: hen ganiatadau mwynau sy'n dal i fodoli; hybu'r defnydd o ddeunyddiau eraill yn lle agregau; lleihau effaith cloddio am agregau; manteision amgylcheddol a mwynderol i gymunedau y mae cloddio am agregau'n effeithio arnynt; gwarchod safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig a phrosiectau addysgol. Am fwy o fanylion cysylltwch â Llywodraeth Cymru, Cangen Polisi Cynllunio, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ Ffôn: 029 2082 3261 neu 029 2080 1492 Planning.Division@wales.gsi.gov.uk

Cyngor Celfyddydau Cymru ■ DC ■ AE

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru'n cynnig Grantiau Bach sy'n werth rhwng £250 a £5,000. Bwriad y grantiau hyn yw cefnogi sefydliadau sy'n cynllunio ac yn rhedeg prosiectau bach, prosiectau peilot neu brosiectau sy'n cael swm sylweddol o arian o ffynonellau eraill. Rhaid i'r holl geisiadau fod ar gyfer gwaith sy'n adlewyrchu blaenoriaethau ariannu Cyngor y Celfyddydau. Disgwylir i sefydliadau sy'n ymgeisio am y tro cyntaf ar y lefel hon ddangos eu bod yn gallu rheoli arian cyhoeddus yn effeithiol. Ni chaniateir i sefydliadau gael mwy nag un o'r grantiau hyn bob blwyddyn, gan ddechrau o'r dyddiad y bydd y prosiect yn dechrau. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bgdtx>

Biffa Award ■ CG ■ MA ■ CW ■ TW ■ AA ■ AE ■ DC ■ TDd

Mae cronfa Biffa Award yn werth miliynau o bunnoedd, ac mae'n helpu i ddatblygu cymunedau a thrawsnewid bywydau drwy ddyfarnu grantiau i brosiectau cymunedol ac amgylcheddol ledled y Deyrnas Unedig. Mae arian y gronfa'n dod o greydau treth tirlenwi wedi eu rhoi gan Wasanaethau Gwastraff Biffa. Rheolir Biffa Award gan Gymdeithas Frenhinol yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt (RSWT) ar ran Biffa. Mae rhaglen grantiau Biffa Award yn cynnwys:

- **Grantiau Bach** - £250 - £5,000. Ar gyfer prosiectau sy'n galluogi cymunedau i wella mwynderau lleol a gwarchod bywyd gwyllt.
- **Grantiau Mawr** - £5,000 - £50,000. Ar gyfer prosiectau sy'n gweithio tuag at un o'r pedair thema isod: Cyfleusterau Diwylliannol, Ailadeiladu Bioamrywiaeth, Adeiladau Cymunedol a Hamdden.
- **Grantiau Blaenllaw (Flagship)** - £150,000 - £500,000. Ar gyfer prosiectau o bwysigrwydd rhanbarthol sy'n gwella bioamrywiaeth neu gyfleusterau diwylliannol.

Am fwy o fanylion ynglŷn â'r dyddiadau cau a sut i wneud cais ewch i:
<http://digbig.com/5bfwwq>

Bywiogi Eich Pentref a Synnwyr o Berthyn (Bring Your Village Alive & Sense of Roots) ■ AE

Mae'r holl gymhorthdal oedd ar gael o dan y ddau gynllun wedi'i rannu, bellach. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bhgjq>

Cynllun Cymorth Band Eang ■ DC

Mae Cynllun Cymorth Band Eang Llywodraeth Cymru'n cynnig cymorth ar gyfer atebion band eang amgen trwy dargedu cymhorthdal ar gyfer adeiladau ledled Cymru na wasanaethir gan raglen Superfast Cymru, neu lle ni ddechreuwyd ei chyflwyno eto. Mae'r cynllun yn cynnig cymhorthdal oddi wrth Lywodraeth Cymru o hyd at £1,000 y fangre yng Nghymru o'r 1^{af} o Hydref 2013. Mae'r cynllun ar agor i unigolion, busnesau, cyrff trydydd sector a chymunedau yng Nghymru sydd â chysylltiadau band eang araf, ac na all eu mangle ond derbyn cysylltiad band eang â chyflymder lawrlwytho cyson o lai na 2 mega-bit yr eiliad. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bjdmx>

Busnes yn y Gymuned - ProHelp Sir Benfro ■ AE ■ DC

Mae ProHelp Sir Benfro yn darparu gwasanaethau, cyngor a chefnogaeth broffesiynol i'r sector gwirfoddol yn rhad ac am ddim drwy ddefnyddio arbenigedd busnesau lleol. Cynigir y cynllun i bob grŵp cymunedol a menter gymdeithasol yn **Sir Benfro**. Ariennir ProHelp Sir Benfro drwy Gynllun Datblygu Cymru Wledig 2007-2013 sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bfkxx>

Cronfa Gymunedol CEMEX ■ AE

Mae Cronfa Gymunedol CEMEX yn cynnig grantiau penodol er mwyn galluogi a chynorthwyo cymunedau sy'n agos at chwareli a safleoedd tirlenwi CEMEX i gyflawni prosiectau sy'n gwella cyfleusterau cymunedol lleol a lleoedd o ddiddordeb. Gall y gronfa gefnogi nifer bach o brosiectau â grantiau sy'n amrywio o £1,000 i £15,000 ar gyfer prosiectau sy'n: darparu ac yn cynnal parciau a mwynderau cyhoeddus pan fo'r gwaith yn diogelu'r amgylchedd cymdeithasol, adeiledig a/neu naturiol; atgyweirio, neu adnewyddu adeiladau neu strwythurau sydd o ddiddordeb crefyddol, hanesyddol neu bensaernïol. Mae'r gronfa'n gweithredu dan y Gronfa Cymunedau Tirlenwi. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bdckp>

Grantiau Cadw ■ AE

Mae Cadw yn cynnig grantiau i berchnogion ac eraill i gyfrannu at gostau atgyweirio ac adnewyddu asedau hanesyddol. Rhoddir blaenoriaeth i brosiectau a fydd yn sbarduno cyfleoedd adfywio neu i asedau mewn perygl. Mae grantiau ar gael ar gyfer atgyweirio ac adnewyddu adeiladau hanesyddol o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig ac

ar gyfer gwaith ar henebion cofrestredig. Ceir grantiau o hyd at £5,000 fel arian cyfatebol tuag at brosiectau treftadaeth gymunedol lleol ac arian i awdurdodau lleol i gyfrannu at gynlluniau ardal sy'n annog adfywio drwy ddiogelu adeiladau hanesyddol. Mae Cadw yn aml yn gweithio mewn partneriaeth â chyllidwyr eraill i sicrhau y caiff amgylchedd hanesyddol Cymru ei ddiogelu. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bgdty>

Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol 2007-2011 ■ AE

Cynllun grant cyfalaf sy'n cael ei weithredu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yw hwn. Mae'n agored i sefydliadau cymunedol a gwirfoddol. Bwriadwyd y rhaglen fel cronfa y gall sefydliadau ei defnyddio er mwyn llenwi bylchau ariannol sy'n dal i fodoli ar ôl archwilio pob ffynhonnell arall. Gall y Rhaglen helpu i ddarparu cyfleusterau a chyfarpar a helpu i gyflawni gweithgareddau sy'n hybu'r gwaith o adfywio cymunedau. Y dyddiad cau diwethaf oedd 31 Gorffennaf. Mae'r rhaglen yn rhan o ymgynghoriad ar hyn o bryd ac nid ydym wedi cael unrhyw wybodaeth ynglŷn â'r canlyniad. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5benkx>

Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf ■ AE

Mae'r Gronfa **wedi cau** erbyn hyn. Disgwylir cyhoeddiad ynglŷn â'r rownd nesaf.

Cory Environmental Trust in Britain ■ CG ■ CW

Sefydlwyd y Cory Environmental Trust in Britain (CETB) yn 2003 yn Gorff Amgylcheddol tan delerau Rheoliadau Treth Tirlenwi 1996. Mae'r ymddiriedolaeth yn canolbwyntio, yng Nghymru, ar brosiectau yn ardal **Wrecsam**. Mae CETB yn awr wedi rhoi cymhorthdal i ragor na 240 prosiect, â chyfanswm gwerth o £9.1 miliwn, gan ariannu amrywiaeth eang o brosiectau, o waliau dringo i arolygon cacwn. Rhaid i bob ymgeisydd enwebu trydydd parti annibynnol sy'n fodlon cyfrannu'r 10% Arian Trydydd Parti y mae'n rhaid ei dalu'n uniongyrchol i Cory Environmental Management Limited pan gwblheir y prosiect. Am ragor o fanylion, ewch at: <http://digbig/5bhffc>

Cymunedau Gwledig Creadigol (Creative Rural Communities) ■ AE ■ DC

Mae Cymunedau Gwledig Creadigol yn gyfrifol am nifer o brosiectau datblygu gwledig yn ardaloedd gwledig **Bro Morgannwg** (nid yw'n cynnwys y Barri, Penarth a Llandochoau) a'r nod yw datblygu cymunedau a busnesau mwy cynaliadwy. Mae'r cyllid a gynigir yn dod o'r Cynllun Datblygu Gwledig a cheir cynllun ar gyfer arallgyfeirio ffermydd, adfywio pentrefi a gwasanaethau mewn pentrefi â grantiau o hyd at £40,000. Prosiect treftadaeth yw'r cynllun arall, ac mae'n cynnig grant o hyd at £70,000. Mae pob cynllun grant yn gofyn am 30% o arian cyfatebol. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Chymunedau Gwledig Creadigol ar 01446 704754 neu anfonwch ebost i create@valeofglamorgan.gov.uk. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bhnnt>

Cronfa Galluogi: Yr Economi Wledig; Twristiaeth Wledig a Theuluoedd Fferm

■ DC ■ AE

Prif nod y Gronfa yw hybu a hwyluso cynnydd yn nifer y gweithgareddau entrepreneuriaid yng **Ngwynedd**, mewn cyd-destun masnachol a chymdeithasol, er mwyn datblygu mentrau cryf a fydd yn helpu i greu mwy o amrywiaeth yn yr economi wledig a chynnal gwasanaethau hanfodol mewn cymunedau ymylol. Mae gan y gronfa dair thema, sef yr Economi Wledig, Twristiaeth a Theuluoedd sy'n Ffermio, ond oherwydd poblogrwydd y rhaglen dim ond cyllid ar gyfer y thema Teuluoedd Fferm sydd ar ôl. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bftse>

Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni - Ynni'r Fro ■ DC

Mae Rhaglen Ynni'r Fro Llywodraeth y Cynulliad yn defnyddio Cronfeydd Strwythurol Ewrop i ddarparu cymorth a chyllid i symbylu datblygiad cynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol ar draws y wlad. Mae rhwydwaith o swyddogion datblygu technegol lleol wedi'i sefydlu drwy Gymru i helpu grwpiau i ddatblygu eu prosiectau a chael arian o ffrydiau ariannu Ynni'r Fro. Mae grantiau ar gael i ariannu astudiaethau dichonolrwydd a thalu costau cychwynnol eraill. Mae hyd at £30,000 ar gael i ariannu gweithgareddau camau cynnar sy'n angenrheidiol er mwyn i'r prosiectau fynd yn eu blaenau, megis arolygon amgylcheddol, ceisiadau cynllunio a gwaith i ymgysylltu â'r gymuned. Mae grant arall o hyd at £300,000 ar gael tuag at gostau cyfalaf prosiectau ynni adnewyddadwy. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bfkmd>

Grantiau Amgylchedd Cymru ■ CG ■ CW ■ TW ■ AE

Cynllun gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yw Amgylchedd Cymru ac mae'n cyfrannu tuag at ddatblygu cynaliadwy drwy gefnogi ac annog gwaith gwirfoddol sy'n diogelu ac yn gwella amgylchedd Cymru. Mae'n bartneriaeth unigryw rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a naw sefydliad yn y sector gwirfoddol. Mae gan Amgylchedd Cymru bum cynllun grant, sy'n ceisio cynorthwyo prosiectau ym mhob cam o'u datblygiad. Mae Amgylchedd Cymru'n eich annog i drafod eich syniadau neu'ch prosiect yn gynnar gyda'ch Swyddog Datblygu Lleol. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/4xnhd>

Amgylchedd Cymru: Cynllun Grantiau Cefnogi Byw'n Gynaliadwy ■ AE ■ DC

Mae'r cynllun grantiau hwn yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac yn cael ei weinyddu gan Amgylchedd Cymru, mewn cydweithrediad â Chynnal Cymru. Mae'r cynllun yn cefnogi prosiectau a fydd yn helpu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru – neu ddatblygu'r gallu i wrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd – drwy fynd i'r afael ag ymddygiad penodol neu ffordd o fyw a ddewiswyd. Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r grantiau'n werth rhwng £5,000 a £15,000. Er hyn, gall y ffigwr hwn gynyddu i hyd at £50,000 mewn amgylchiadau eithriadol. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bfkme>

Menter Addysg y Goedwig – Cronfa Bartneriaeth ■ CG

Nod Menter Addysg y Goedwig yw cynyddu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad pobl ifanc yn fwyaf arbennig o botensial amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd coed, coetiroedd a choedwigoedd ac o'r cysylltiad rhwng coed a chynnyrch pren bob dydd. Mae'r gwaith yn cael ei wneud drwy grwpiau lleol, a elwir yn 'grwpiau clwstwr'. Mae Cronfa Bartneriaeth y Fenter yn bodoli'n benodol er mwyn cefnogi gwaith y clystyrau. Yr uchafswm y gellir ymgeisio amdano mewn un cais yw £5,000. Ceir tair rownd gyllido bob blwyddyn a'r dyddiadau cau yw 1 Chwefror, 1 Mehefin ac 1 Hydref. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bafej>

Grant Creu Coetir Glastir ■ CG ■ MA ■ CW ■ AE ■ TW

Mae grant newydd ar gyfer creu coetir ar gael drwy Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd y grant hwn yn cymryd lle Cynllun Grant Coetiroedd Gwell i Gymru. Mae'r cynllun newydd ar gael i unrhyw un yng Nghymru sydd â mwy na 0.25 hectar o dir, ar dir a ddynodwyd yn addas i blannu coed o'r newydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru a chyrff cadwraethol yng Nghymru, a lle nad oes gwrthdaro â chynlluniau amaeth-amgylcheddol eraill. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bdnjid>

Glasi – Cynllun Arallgyfeirio Ffermydd ■ CG ■ AE ■ DC

Mae Glasi yn cynnig nifer o brosiectau datblygu gwledig ym **Mhowys** ac yn treialu dulliau newydd ym maes datblygu gwledig, er mwyn helpu i ddatblygu cymunedau a busnesau mwy cynaliadwy yn **ardal wledig y Canolbarth**. Mae'r Cynllun Arallgyfeirio Ffermydd yn rhan Gynllun Datblygu Gwledig Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n cael ei redeg gan Glasi fel rhan o Gyngor Sir Powys. Mae grantiau sy'n werth hyd at £20,000 ar gael ar gyfer arallgyfeirio anamaethyddol, nad yw'n gysylltiedig â chynhyrchu sylfaenol. Gellir defnyddio grantiau tuag at gostau datblygu adeiladau, gwaith daear, cyfarpar, meddalwedd cyfrifiadurol, gwefannau dwyieithog a deunydd marchnata. Gall busnesau fferm sydd wedi arallgyfeirio'n barod hefyd wneud cais er mwyn ehangu eu menter. **Sylwer nad yw'r cynllun yn derbyn rhagor o geisiadau newydd.** I gael mwy o wybodaeth ffoniwch y swyddog prosiect, Laura Shewring, ar 01982 553305, neu anfonwch ebost i farm.diversification@powys.gov.uk. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bgsfy>

Gwirvol ■ AE

Nod cynllun Grantiau Gwirfoddoli ymysg Pobl Ifanc GwirVol yw helpu i gynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd newydd i wirfoddoli yng Nghymru a thramor, gan helpu pobl ifanc 14-25 oed, yn enwedig pobl ifanc sydd dan anfantais, i gael mynediad at gyfleoedd i wirfoddoli. Mae grantiau ar gael mewn tri maes, Creu Cyfleoedd – hyd at £10,000, Hyrwyddo – hyd at £3,000, a Gwirfoddolwyr y Mileniwm – hyd at £10,000. Mae'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau newydd fod. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bhcat>

Cadwch Gymru'n Daclus ■ CG ■ CW ■ TW ■ AE

Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn ceisio gwneud Cymru'n lle 'Glân, Diogel a Thaclus' i bawb. Mae'n gweithio mewn partneriaeth agos ag awdurdodau lleol, ysgolion a grwpiau cymunedol er mwyn annog y cyhoedd i gyfrannu a chymryd rhan. Mae'n rhedeg y Prosiect Trefi Taclus, sy'n gallu cynnig cymorth ariannol drwy'r cynllun Talebau Garddio Cenedlaethol i grwpiau cymunedol â chyfansoddiad sy'n gallu dangos ymrwymiad i fynd i'r afael â phrosiectau amgylcheddol a fydd yn adfer eu hardal leol i'w hen ogoniant. Mae talebau Cadwch Gymru'n Daclus fel arfer yn werth hyd at uchafswm o £300 y flwyddyn, ac maent ar gael i helpu i dalu costau deunyddiau, offer, cyfarpar diogelwch a phlanhigion a pherthi brodorol. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bhgsh>

Cronfa Cymunedau Tirlenwi ■ AE

Mae'r Gronfa Cymunedau Tirlenwi – yr hen Gynllun Credydau Treth Tirlenwi – yn gynllun arloesol sy'n galluogi gweithredwyr safleoedd tirlenwi i gyfrannu arian i Gyrrff Amgylcheddol sydd wedi cofrestru i weithredu prosiectau sy'n cyflawni amcanion amgylcheddol a nodir yn y Rheoliadau Treth Tirlenwi. Mae'r sefydliad ENTRUST yn rheoleiddio'r gronfa ar ran Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Mae angen i sefydliadau sy'n dymuno gwneud cais am gyllid drwy'r cynllun fod wedi'u cofrestru gydag ENTRUST. Ewch i: <http://digbig.com/5bcbxw>. Gellir defnyddio arian y gronfa ar gyfer chwe phrif faes gwaith. Gelwir y rhain yn 'amcanion'. Mae'r amcanion perthnasol fel a ganlyn:

- Adfer tir na ellir ei ddefnyddio yn awr oherwydd gweithgaredd a arferai ddigwydd yno ond sydd wedi dod i ben bellach.
- Lleihau, atal neu liniaru effeithiau llygredd sydd wedi digwydd, neu a allai ddigwydd, o ganlyniad i weithgaredd sydd wedi dod i ben bellach.
- Darparu, cynnal a chadw neu wella parc cyhoeddus neu fwynder cyhoeddus arall.
- Gwarchod rhywogaeth benodol neu gynefin penodol lle mae i'w weld yn naturiol.
- Atgyweirio, cynnal a chadw neu adfer Addoldy neu Le o Bwysigrwydd Pensaernïol.

Gall y cyllid amrywio o £500 i £500,000 ac mae'n dibynnu'n gyfan gwbl ar y cynllun unigol y gwneir cais amdano. Y ffordd fwyaf cyffredin o gael arian yw drwy gysylltu â Chorff Amgylcheddol sy'n Dosbarthu. Ceir rhestr o'r cyrff hyn ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru ar wefan ENTRUST. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bcbxx>

Prosiect Asedau Naturiol Sir Fynwy ■ CG ■ CW

Mae grantiau cyfalaf sy'n cael eu hariannu'n llawn (hyd at £2,000 y prosiect) ar gael i helpu i gefnogi'r gwaith o wella ac adfer Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol sydd wedi cael eu nodi yn **Sir Fynwy**. Mae Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol yn ardaloedd sy'n cael eu hystyried fel rhai o werth cadwraethol penodol oherwydd y cynefin neu'r amrywiaeth o rywogaethau y maent yn ei gynnal. Mae'r grant ar gael i berchnogion safleoedd o'r fath ar gyfer prosiectau sy'n helpu i sicrhau rheolaeth a chadwraeth sensitif yn yr hirdymor. Enghreifftiau o brosiectau yw ffensys i atal stoc, adfer terfynau caeau traddodiadol, gwaith i reoli rhywogaethau

ymwithiol a phrynu peiriannau / offer arbenigol bychain. **Sylwch fod y cynllun yn awr ar gau.** Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bhqjs>

EU - LIFE+ ■ CG ■ CW

Y rhaglen LIFE yw offeryn ariannol yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer yr amgylchedd. Nod cyffredinol LIFE yw helpu i weithredu, diweddarau a datblygu polisi a deddfwriaeth amgylcheddol yr Undeb Ewropeaidd drwy gydariannu cynlluniau peilot neu brosiectau arddangos â gwerth ychwanegol Ewropeaidd. Dechreuodd LIFE yn 1992 a hyd yn hyn mae tair rhan gyfan o'r rhaglen wedi cael eu cwblhau. Yn ystod y cyfnod hwn, mae LIFE wedi cydariannu tua 3,104 o brosiectau ledled yr UE, gan gyfrannu tua €2.2 biliwn er mwyn diogelu'r amgylchedd. Mae rhan bresennol y rhaglen, LIFE+, yn weithredol o 2007 i 2013 ac mae ganddi gyllideb o €2.143 biliwn. Cyhoeddir galwadau am gynigion yn flynyddol ac mae'r gyllideb gyfan sydd ar gael ar gyfer galwad eleni yn €276.7 miliwn. Mae dros €21.5 miliwn o'r swm hwn wedi ei neilltuo i'r DU. Rhaid i gynigion fod yn gymwys dan un o dair elfen y rhaglen: LIFE+ Natur a Bioamrywiaeth, LIFE+ Polisi a Llywodraethu'r Amgylchedd a LIFE+ Gwybodaeth a Chyfathrebu. Am fwy o fanylion a gwybodaeth am y meini prawf ar gyfer ymgeisio ewch i: <http://digbig.com/4yxsy>

Cynllun Grant Fan Plygio-i-mewn (Plug-in Van) ■ AE

Mae'r fenter hon gan y Llywodraeth Ganolog yn galluogi modurwyr sy'n prynu fan gymwys ag allyriadau isel iawn i gael grant o 20% tuag at gost y cerbyd, hyd at uchafswm o £8,000. Lluniwyd y grant i helpu i wneud costau gydol oes fan gymwys yn fwy cyson â faniau petrol neu ddeisel tebyg. Gall defnyddwyr preifat a busnesau fanteisio ar y grant. Am fwy o wybodaeth ewch i: <http://digbig.com/5bqsmv>

Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 ■ CG ■ MA ■ CW ■ TW

Mae Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 yn rhan o strategaeth ar y cyd rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Undeb Ewropeaidd. Cyflwynir y Cynllun drwy nifer o 'Echelau'. Prif bwrpas Echelau 1 a 2 (a rhan o Echel 3) yw cefnogi teuluoedd sy'n ffermio yng Nghymru ac maent yn ymwneud ag 'amaethyddiaeth a choedwigaeth', 'yr amgylchedd a chefn gwlad', ond mae Echelau 3 a 4 yn ymwneud ag ansawdd bywyd mewn ardaloedd gwledig a chynlluniau lleol ar gyfer datblygu cefn gwlad.

- Amcan **Echel 3** yw gwella ansawdd bywyd mewn cymunedau gwledig drwy gefnogi gwasanaethau sy'n sylfaenol i economi a phobl cefn gwlad, adfywio pentrefi, diogelu a gwella'r dreftadaeth wledig a hyfforddiant i weithredwyr economaidd gwledig.
- Mae **Echel 4** yn defnyddio'r rhaglen LEADER i ymwneud â phobl yn eu cymunedau a'u sbarduno i feddwl am ffyrdd newydd i ddatblygu cefn gwlad yng Nghymru yn y tymor hir.

Gallai cyllid drwy Echelau 3 a 4 fod ar gael ar gyfer prosiectau lleol. Er mwyn darganfod a yw eich prosiect chi'n gymwys bydd angen i chi ddarganfod yn gyntaf a yw wedi'i leoli mewn ardal sydd wedi'i dynodi'n ardal 'wledig', yna bydd angen i chi gysylltu â'r sefydliad sy'n gyfrifol am weithredu'r rhaglen. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bjdmy>

Rhaglen Gwella Cymunedau SITA

Gwella Cymunedau yw rhaglen ariannu Ymddiriedolaeth SITA ar gyfer prosiectau gwella cymunedau. Cefnogir y gronfa drwy'r Gronfa Cymunedau Tirlenwi. Mae'n cefnogi prosiectau sy'n gwneud gwelliannau ffisegol i gyfleusterau hamdden cymunedol ac i adeiladau a strwythurau hanesyddol. Gall sefydliadau dielw, grwpiau cymunedol, cynghorau plwyf, awdurdodau lleol ac elusennau yn **ardal Hwlfordd** wneud cais. Mae'r rhaglen yn cynnig dau gynllun, Cronfa Graidd ar gyfer grantiau hyd at £60,000 a Chronfa Trac Cyflym ar gyfer grantiau hyd at £20,000. Mae 6 rownd ariannu ym mhob blwyddyn galendr ar gyfer y gronfa Trac Cyflym a'r dyddiad cau nesaf yw **lonawr y 6^{ed} 2014**. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bcsss>

SITA Trust – Rhaglen Cyfoethogi Natur 2014 ■ CG ■ CW

Mae Rhaglen cyfoethogi Natur y SITA Trust yn darparu arian ar gyfer prosiectau cadwraeth bioamrywiaeth blwyddyn o hyd, sy'n canolbwyntio ar un rhywogaeth neu gynefin sydd ar restr rhywogaethau a chynefinoedd â blaenoriaeth yng Nghymru a Lloegr, dan roi hyd at £75,000. Ystyrir ceisiadau am hyd at £25,000 yn geisiadau cymhorthdal bychain. Ystyrir ceisiadau i'r Rhaglen cyfoethogi Natur unwaith y flwyddyn, gyda dyddiad cau yn Chwefror, a rhoddir gwybod y canlyniad ym Mehefin. Yr ydys yn ystyried mynegiadau o ddiddordeb ar hyn y bryd, ac anogir ymgeiswyr i gysylltu cyn y dyddiad cau, sef 5:00 o'r gloch prynhawn y **6^{ed} o Ragfyr 2013**. Os cred y SITA Trust ei fod yn werth ystyried syniad am brosiect yn gais cyflawn, gwahoddir ymgeiswyr i gyflwyno cais cyflawn erbyn 5:00 o'r gloch prynhawn y **3^{ydd} o Chwefror 2014**. Am ragor o fanylion ewch at <http://digbig.com/5bhddd>

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri – Cronfa Prosiectau Cymunedol Bychain

Bwriad y Gronfa Prosiectau Cymunedol Bychain yw cynorthwyo pobl sy'n byw yn y Parc Cenedlaethol i ddechrau prosiectau fydd o fudd i'w cymunedau a'u hamgylchedd lleol. Bydd unrhyw brosiectau sy'n gwella'r amgylchedd neu'r gymuned leol ac yn cwrdd â nod ac amcanion Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gymwys i'w hariannu. Bydd y grant a ddyfernir rhwng £50 a £1,000 fel rheol ac ni fydd yn fwy na 50% o gyfanswm costau'r prosiect. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bdnke>

Sblash – Cronfa Her Gweithgareddau Hamdden Dŵr Cymru ■ AE

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cynnig grantiau hyd at 100% i brosiectau (bach a mawr) sy'n helpu pobl i fwynhau dyfroedd Cymru. Y grant lleiaf yw £5,000. Bydd y pwyslais ar gefnogi gwaith cyfalaf newydd a gwaith arall sy'n gwella cyfleusterau ar lan afonydd, arwyddion, parcio oddi ar y ffordd, ac yn y blaen. Gall hyn hefyd gynnwys cyfleusterau a gynlluniwyd i ddiwallu anghenion pobl anabl. Dylai pob prosiect helpu i

hyrwyddo cynaliadwyedd a mynediad cyfrifol. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/4ydgq>

Grantiau Chwaraeon Cymru ■ AE

Chwaraeon Cymru yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddatblygu a hyrwyddo chwaraeon ac ymarfer corff yng Nghymru. Y sefydliad yw prif gynghorydd Llywodraeth Cymru ar faterion chwaraeon ac mae'n gyfrifol am ddsbarthu arian y Loteri Genedlaethol i chwaraeon elitaidd a chwaraeon ar lawr gwlad yng Nghymru. Mae Chwaraeon Cymru'n cynnig grantiau amrywiol sydd i gyd yn ceisio helpu i wella chwaraeon mewn cymunedau yng Nghymru. Am fwy o wybodaeth ewch i: <http://digbig.com/5bgsng>

Grant y Gronfa Arian Cyfatebol a Dargedir ■ AE

Mae'r Gronfa Arian Cyfatebol a Dargedir yn darparu arian cyfatebol canolog i Raglenni'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2007-2013 ar gyfer Cymru, fel cronfa pan fo pob dim arall wedi methu. Dim ond arian refeniw fydd yn cael ei ddarparu ond mae ar gael i sefydliadau ym mhob sector i gefnogi gweithgareddau cymwys dan Raglenni Cronfeydd Strwythurol Cydgyfeirio, Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol, a Chydweithio Tiriogaethol. <http://digbig.com/5bghpy>

WRAP Cymru – Recycle on the go ■ AE ■ DC

Mae WRAP Cymru yn cynnig grantiau newydd i sefydliadau sydd â diddordeb mewn cyflwyno gwasanaeth ailgylchu i'w hymwelwyr. Cynigir hyd at £50,000 ar ffurf grantiau, a chynghor gan arbenigwyr i helpu i ddewis y gwasanaeth ailgylchu iawn. Mae'r cynllun wedi'i anelu at y mathau canlynol o leoliadau; canolfannau chwaraeon, hamdden a'r celfyddydau, atyniadau i ymwelwyr, canolbwyntiau trafndiaeth (e.e. gorsafoedd rheilffordd), colegau, amgueddfeydd ac ysbytai. Gwahoddir trefnwyr digwyddiadau fel gwyliau a sioeau i wneud cais hefyd. **Sylwer!** Mae'r cronfeydd i gyd wedi cael eu dyrannu erbyn hyn ac ni dderbynnir rhagor o geisiadau. Am fwy o wybodaeth ewch i: <http://digbig.com/5bgsnc>

Cronfa Gweithredu Bioamrywiaeth WREN ■ CW

Cynlluniwyd rhaglen grantiau flynyddol Cronfa Gweithredu Bioamrywiaeth WREN er mwyn cyflawni prosiectau drwy'r Gronfa Cymunedau Tirlenwi mewn awdurdodau lleol penodol. Yng Nghymru, yr ardaloedd hyn yw: Ynys Môn, Sir Gaerfyrddin, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Castell-nedd Port Talbot, Abertawe a Wrecsam. Rhaid i brosiectau anelu'n bennaf at reoli, adfer neu ail-greu un neu ragor o gynefinoedd blaenoriaeth, a'r rhywogaethau sy'n dibynnu arnynt, er mwyn helpu i gyrraedd targedau bioamrywiaeth cenedlaethol, rhanbarthol neu leol. Rhaid i ran o safle prosiect fod o fewn 10 milltir o safle tirlenwi sy'n bodoli ar hyn o bryd neu hen un. Am wybodaeth am safleoedd tirlenwi presennol / hanesyddol yn eich ardal ewch i <http://digbig.com/5bcbwh>. Mae grantiau sy'n werth rhwng £75,000 a £250,000 ar gael a gall prosiectau bara am hyd at 5 mlynedd. Bydd WREN yn ystyried ariannu 100% o'r costau cymwys. Gall ceisiadau gynnwys mwy nag un safle lle mae cysylltiadau clir a phendant rhwng safleoedd, e.e. rhostiroedd ym Môn. Cynghorir

darpar ymgeiswyr i ofyn am gyngor a chefnogaeth drwy bartneriaeth Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol berthnasol a Grŵp Ecosystemau Cymru. Mae rhestr lawn o Gadeiryddion y Grwpiau Ecosystemau a manylion cysylltu i'w gweld ar wefan PBC <http://digbig.com/5bcbwg>

Veolia Environmental Trust ■ CG ■ CW

Mae'r Veolia Environmental Trust yn cefnogi ac yn ariannu cynlluniau leded y Deyrnas Unedig trwy'r Gronfa Cymunedau Tirlenwi. Ceisia gefnogi'r mathau canlynol o brosiectau: adeiladau, parciau a llwybrau cymunedol; cyfleusterau chwarae ac adloniant; gwarchodfeydd natur, a chynlluniau sy'n cefnogi bioamrywiaeth. Rhoddwyd rhagor na £3 miliwn gan yr ymddiriedolaeth y llynedd, er bod cyfran yr arian i brosiectau yng Nghymru'n gymharol fychan, a bydd angen i bob ymgeisydd wirio ei feini prawf cymhwysedd daearyddol ac eraill cyn ymgeisio. Am ragor o fanylion, ewch at <http://digbig.com/5bhwn>

Prosiectau 'Amgylchedd ar gyfer Twf' Croeso Cymru ■ AA ■ CG ■ DC ■ AE

Mae thema amgylchedd ar gyfer twf y rhaglen gydgyfeirio wedi creu partneriaeth gref lle mae Croeso Cymru'n gweithio gyda nifer o bartneriaid allweddol eraill, gan gynnwys Adran yr Economi a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cadw, a Cyfoeth Naturiol Cymru, i ddatblygu cyfres gyffrous o brosiectau strategol. Mae Croeso Cymru'n canolbwyntio'n bennaf ar dwristiaeth arfordirol a thwristiaeth gynaliadwy. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bgpcd>

Cronfa Twf Economaidd Cymru ■ DC

Cronfa grantiau nad oes angen eu had-dalu yw Cronfa Twf Economaidd Cymru. Cafodd ei sefydlu'n benodol â dau nod – hybu busnes a mentrau cymdeithasol drwy gefnogi prosiectau fydd yn sbarduno twf economaidd ac yn creu swyddi ac / neu yn eu diogelu, a datblygu prosiectau a fydd yn dod ag effaith a budd economaidd i Gymru. Cyflwynir y Gronfa mewn dwy ran:

- Rhan 1 - Mawrth 2013: mynegi diddordeb mewn cyllid rhwng isafswm o £50,000 ac uchafswm o £100,000
- Rhan 2 - Hydref 2013: mynegi diddordeb mewn symiau o gyllid sydd dros £100,000. Rhaid cyflwyno mynegiadau diddordeb erbyn yr **16^{eg} o Ragfyr 2013**.

Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bhcbd>

WCVA – Y Porth Ymgysylltu ■ DC

Nod y Porth Ymgysylltu yw lleihau anweithgarwch economaidd yng Nghymru drwy wella cyflogadwyedd pobl sy'n wynebu rhwystrau rhag cyflogaeth ac sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur. Mae'r cynllun yn cael ei gefnogi gan arian Ewropeaidd ond nid yw'n derbyn rhagor o geisiadau. Am fwy o wybodaeth ewch i: <http://digbig.com/5bhcaw>

Young Entrants Support Scheme (YESS) ■ CG

Bwriad y Cynllun hwn yw cynnig cymorth i helpu i ymsefydlu ffermwyr ifanc (dan 40 oed) sy'n meddu ar sgiliau a chymwyseddau digonol ac sy'n ymsefydlu fel pennaeth daliad am y tro cyntaf. Bydd y pecyn cymorth yn cynnwys y cyfan neu rai o'r canlynol: taliad grant untro, mynediad at wasanaeth Swyddog Galluogi dynodedig ar gyfer newydd-ddyfodiaid ifanc, mynediad at wasanaethau mentora wedi'u hariannu a ddarperir gan ffermwyr sefydlog. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bgsgh>

Cyllid y Loteri

Am bob £1 y mae'r cyhoedd yn ei gwario ar docynnau loteri mae 28 ceiniog yn mynd tuag at achosion da'r Loteri. Yr achosion da hyn yw'r celfyddydau, elusennau a grwpiau gwirfoddol, treftadaeth, iechyd, addysg, yr amgylchedd a chwaraeon. Cyllidwyr y loteri yw'r sefydliadau sy'n dosbarthu'r arian achosion da i gymunedau lleol a phrosiectau cenedlaethol. Am gyngor cyffredinol ynglŷn â chyllid y loteri gweler: <http://digbig.com/5bgsqj>. Y cyllidwyr Loteri a allai ddarparu cyllid i alluogi prosiectau i gynnal harddwch naturiol, bywyd gwyllt a'r cyfle i fwynhau'r awyr agored yng Nghymru yw: Arian i Bawb, y Gronfa Loteri Fawr a Chronfa Dreftadaeth y Loteri. Mae gan bob un o'r dosbarthwyr hyn ystod o raglenni grant sy'n cael eu disgrifio isod.

Arian i Bawb ■ AE ■ DC

Cynllun grantiau bychain syml yw Arian i Bawb (Cymru). Mae gwerth y grantiau'n amrywio o £500 i £5,000. Nod y Rhaglen yw helpu i wella cymunedau lleol a bywydau'r bobl sydd â'r angen mwyaf. Mae Arian i Bawb yn ceisio ariannu prosiectau sy'n cefnogi gweithgaredd cymunedol, yn ehangu mynediad a chyfranogiad, yn cynyddu sgiliau a chreadigrwydd ac yn gwella ansawdd bywyd, drwy gefnogi prosiectau lleol sy'n gwella cyfleoedd, iechyd, lles, amgylchedd neu gyfleusterau lleol pobl, yn enwedig y bobl fwyaf difreintiedig mewn cymdeithas. Gellir cyflwyno ceisiadau unrhyw bryd a cheisir ymateb cyn pen 6 wythnos. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bcgsh>

Y Gronfa Loteri Fawr ■ AE ■ DC

Dosberthir y Gronfa Loteri Fawr i grwpiau cymunedol ac i brosiectau sy'n gwella iechyd, addysg a'r amgylchedd. Mae dwy raglen berthnasol yng Nghymru; Pobl a Lleoedd a'r Gronfa Cymunedau Arfordirol. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bhcx> neu edrychwch ar y disgrifiadau isod o'r rhaglenni.

Y Gronfa Loteri Fawr – Rhaglen Pobl a Lleoedd ■ AE ■ DC

Bydd y rhaglen hon yn ariannu prosiectau cyfalaf a refeniw sy'n annog pobl sy'n awyddus i wneud eu cymunedau'n well lleoedd i fyw ynddynt i weithio gyda'i gilydd. Mae'n cefnogi prosiectau lleol a rhanbarthol ledled Cymru sy'n canolbwyntio ar: adfywio cymunedau, gwella cysylltiadau cymunedol, neu wella amgylchedd, gwasanaethau cymunedol ac adeiladau lleol. Prif nod y rhaglen yw dod â phobl at ei gilydd i wneud gwelliannau gwirioneddol i gymunedau ac i fywydau'r bobl fwyaf anghenus. Mae'r pwyslais ar

brosiectau sy'n cael eu harwain gan y gymuned – helpu pobl i ddatblygu'r sgiliau a'r hyder i ymwneud mwy â'r gymuned. Mae'r rhaglen wedi ailagor ac mae'r grantiau sydd ar gael yn amrywio o £5,000 i £1,000,000. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bcgsm>

Y Gronfa Loteri Fawr – Cronfa Cymunedau'r Arfordir ■ AE ■ DC

Bydd Cronfa Cymunedau'r Arfordir yn annog datblygiad economaidd cymunedau arfordirol y Deyrnas Unedig drwy roi cyllid iddynt i greu twf economaidd cynaliadwy a swyddi. Mae dyfarniadau sy'n werth dros £50,000 ar gael ar gyfer ystod eang o sefydliadau. Ystyrir sut y mae cynlluniau ar gyfer twf economaidd yn mynd i'r afael ag anghenion a blaenoriaethau lleol, faint o swyddi fydd yn cael eu creu a pha mor gynaliadwy fyddant yn yr hirdymor. **Mae'r rhaglen hon yn awr ar gau i geisiadau newydd yng Nghymru.** Am fanylion ceisiadau llwyddiannus, ewch i: <http://digbig.com/5bhwsd>

Cronfa Dreftadaeth y Loteri ■ AE ■ DC

Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri'n cynnal ac yn trawsnewid treftadaeth eang drwy fuddsoddiad arloesol mewn prosiectau sy'n cael effaith barhaol ar bobl a lleoedd. Mae'r Gronfa'n dyfarnu ystod o grantiau sy'n werth £3,000 a throsodd drwy'r rhaglenni a ganlyn:

- Mae'r rhaglen **Rhannu Treftadaeth** ar gyfer unrhyw fath o brosiect sy'n ymwneud â threftadaeth genedlaethol, ranbarthol neu leol yn y DU a bydd yn dosbarthu grantiau sy'n werth rhwng £3,000 a £10,000.
- **Grantiau Treftadaeth** (Grantiau dros £100,000) Dyma'r brif raglen ar gyfer grantiau o £50,000 a throsodd ar gyfer prosiectau o bob math sy'n ymwneud â threftadaeth genedlaethol, ranbarthol a lleol y Deyrnas Unedig. Mae'n agored i bob corff dielw.
- **Ein Treftadaeth** (£10,000 - £100,000) Dyma'r rhaglen grantiau bach gyffredinol ar gyfer prosiectau treftadaeth o bob math. Mae'n rhaglen hyblyg sydd wedi'i chynllunio'n benodol ar gyfer grwpiau gwirfoddol a chymunedol ac ymgeiswyr tro cyntaf.
- **Gwreiddiau Ifanc** (£10,000 - £50,000) Mae'r rhaglen hon ar gyfer prosiectau sy'n cael eu harwain gan bobl ifanc. Mae'n ceisio cael pobl ifanc 13-25 oed i ddarganfod mwy am eu treftadaeth, datblygu sgiliau, meithrin hyder a hybu cysylltiad â'r gymuned.
- **Menter Treftadaeth Treflun** (£500,000 - £2,000,000) Mae'r Fenter Treftadaeth Treflun yn cynnig grantiau sy'n helpu cymunedau i adfywio Ardaloedd Cadwraeth lle mae angen cymdeithasol ac economaidd penodol i'w weld.
- **Parciau i Bobl** (£100,000 - £5 miliwn) Mae Parciau i Bobl ar gyfer prosiectau parc cyfan sy'n cefnogi adfywio manau gwyrdd sydd wedi'u dynodi'n barod mewn trefi ac ardaloedd gwledig, a hynny'n bennaf ar gyfer adloniant anffurfiol a mwynhad.
- **Partneriaethau Tirwedd** (£250,000 - £3 miliwn) Mae'r rhaglen hon yn cefnogi cynlluniau sy'n cael eu harwain gan bartneriaethau o ddiddordeb lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, sy'n ceisio gwarchod cymeriad nodedig y dirwedd mewn gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig.
- **Sgiliau ar gyfer y Dyfodol** (£100,000 - £1 miliwn) Mae Sgiliau ar gyfer y Dyfodol yn ariannu prosiectau sy'n darparu lleoliadau hyfforddi â thâl er mwyn llenwi bwlch sgiliau yn y sector treftadaeth, a rhoi cefnogaeth lawn i hyfforddeion i ddysgu sgiliau ymarferol.

- **Grantiau ar gyfer Mannau Addoli** (£10,000 - £250,000) Arian ar gyfer gwaith brys i fannau addoli rhestredig. Mae'r cynllun yn cael ei reoli ar wahân ym mhob un o'r pedair gwlad sy'n rhan o'r Deyrnas Unedig.

Mae meini prawf, prosesau gwneud cais a dyddiadau cau pob rhaglen yn wahanol. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bcqsn>

Cronfa Dreftadaeth y Loteri – Menter Treftadaeth ■ AE ■ DC

Mae rhaglen grantiau newydd Cronfa Dreftadaeth y Loteri, sef Menter Treftadaeth, yn cynorthwyo sefydliadau cymunedol mentrus ledled y DU i achub adeiladau a safleoedd hanesyddol sydd wedi cael eu gadael a datgloi eu potensial economaidd. Dylai prosiectau Menter Treftadaeth gyflawni'r canlyniadau hyn. Â buddsoddiad gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri; bydd eich treftadaeth yn cael ei rheoli'n well a bydd mewn cyflwr gwell, bydd pobl wedi datblygu sgiliau a dysgu am eu treftadaeth, bydd cymunedau'n cael budd o lai o effeithiau amgylcheddol, a gwell lleoedd i fyw, gweithio neu ymweld â hwy, a bydd yr economi leol yn cael hwb. Mae'r grantiau sydd ar gael yn werth rhwng £100,000 a £5 miliwn. Cysylltwch â swyddfa leol Cronfa Dreftadaeth y Loteri i gael rhagor o wybodaeth am y dyddiad cau a dyddiadau cyfarfodydd. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bhqjy>

Cronfa Dreftadaeth y Loteri – Grantiau Cychwyn ■ AE ■ DC

Mae grantiau cychwyn ar gyfer unrhyw un sy'n meddwl am greu sefydliad newydd i ofalu am dreftadaeth, neu gysylltu pobl â threftadaeth, neu i grwpiau sy'n bodoli'n barod sy'n ymgymryd â chyfrifoldebau newydd am dreftadaeth. Gall grantiau cychwyn gefnogi camau cynnar cynllunio gweithgareddau treftadaeth. Er enghraifft, gall grant cychwyn helpu; i fabwysiadu'r strwythur llywodraethu priodol, archwilio dewisiadau ar gyfer rheoli a chynnal treftadaeth, neu gynnal gwaith cwmpasu cynnar fel sail i gais am gyllid ar gyfer prosiect yn y dyfodol. Mae'r grantiau sydd ar gael yn werth rhwng £3,000 a £10,000. Gellir gwneud ceisiadau unrhyw bryd a bydd Cronfa Dreftadaeth y Loteri'n asesu ceisiadau cyn pen wyth wythnos. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bhgkb>

Dolenni cyswllt defnyddiol a dogfennau i'w llwytho i lawr

Cyllid Ewropeaidd

Mae gwefan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wedi cael ei diweddarau i gynnwys adran am *ymgeisio am gyllid Ewropeaidd* (<http://digbig.com/4xcac>), a fydd yn arwain darpar noddwyr prosiectau gam wrth gam drwy'r broses o ymgeisio am gyllid dan raglenni Cydgyfeirio a Chystadleurwydd Rhanbarthol 2007-2013. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am ymgeisio am gyllid Ewropeaidd, cysylltwch â Llinell Gymorth WEFO ar 0845 010 3355 neu anfonwch ebost i: enquiries-wefo@wales.gsi.gov.uk Mae canllaw defnyddiol iawn i gyllid Ewropeaidd ar gael yn <http://digbig.com/4ydqq>

Cyllid Cynaliadwy Cymru

Prosiect Cyllid Cynaliadwy Cymru y WCVA yw cartref Porth Cyllid Cymru sy'n darparu mynediad i gronfa ddata sy'n cynnwys manylion am gyfleoedd, cyngor a chefnogaeth i godi arian yn y DU ac awgrymiadau ynglŷn â sut i arallgyfeirio cyllid. Mae gwefan y prosiect hefyd yn cynnig cyngor ac arweiniad ymarferol i sefydliadau sy'n awyddus i ddatblygu agwedd entrepreneuriaidd at gyllid er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol hirdymor. Mae'n cynnig arweiniad ar y ffynonellau cyllid amrywiol sydd ar gael i'r trydydd sector yng Nghymru a'r dulliau gweithredu a'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn dod o hyd i'r ffynonellau hyn, cael mynediad atynt a'u rheoli. Mae hefyd yn rhoi manylion am gyrsiau hyfforddiant perthnasol, astudiaethau achos yn ymwneud â sefydliadau sydd eisoes yn gweithio tuag at gynaliadwyedd, ffynonellau cymorth pellach a chyfle i danysgrifio i Newyddion Nawdd, eu cylchlythyr electronig misol. Am fwy o fanylion ewch i: <http://digbig.com/5bqhqa>

Prosiect Cyllid Cynaliadwy

Mae'r Prosiect Cyllid Cynaliadwy wedi cyhoeddi chwe chanllaw ariannu wedi'u hanelu at fudiadau cymunedol neu wirfoddol bach a chanolig eu maint a'r bobl sy'n gweithio gyda hwy er mwyn codi arian. Mae'r canllawiau'n ymwneud â'r pynciau canlynol: cyllid cynaliadwy; rheolaeth ariannol; masnachu a chodi arian; caffael a chontractio; a chyllid benthyciadau. Gellir eu llwytho i lawr am ddim fel ffeiliau PDF o: <http://digbig.com/5bhnnw>

Digbig?

Ffordd o fyrhau cyfeiriadau gwe hir yw Digbig. Rhwch gynnig arni yn www.digbig.com

**Byddem yn falch o gael adborth ac awgrymiadau
ar gyfer rhifynnau nesaf y diweddariad hwn:
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**